

At: Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu  
Corfforaethol

Dyddiad: 22 Ebrill 2016

Rhif Union: 01824712575

ebost: dcc\_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL, DYDD MERCHER, 27 EBRILL 2016** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## **AGENDA**

### **1 YMDDIHEURIADAU**

### **2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

### **3 MATERION BRYD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

### **4 COFNODION (Tudalennau 5 - 20)**

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2016.

**5 UNO GWASANAETHAU ADDYSG A GWASANAETHAU PLANT**

(Tudalennau 21 - 60)

Ystyried adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (copi ynghlwm) ar y canfyddiadau o'r Prawf Sicrwydd ar gyfer uno Gwasanaethau Addysg a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yng Nghyngor Sir Ddinbych (CSDd).

**6 ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL SAC - 2015/16** (Tudalennau 61 - 108)

Derbyn adroddiad a chyflwyniad gan Swyddfa Archwilio Cymru (copi ynghlwm) ar yr Adroddiad Gwella Blynyddol 2015/16.

**7 ARDYSTIO GRANTIAU A FFURFLENNI GRANT 2014/15** (Tudalennau 109 - 124)

Ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid (copi ynghlwm) a oedd yn nodi crynodeb o'r canlyniadau allweddol o waith ardystio Swyddfa Archwilio Cymru ar grantiau a ffurflenni grant 2014/15 y Cyngor.

**8 PROSES Y GYLLIDEB 2015/16** (Tudalennau 125 - 132)

Ystyried adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid (copi ynghlwm) sy'n rhoi diweddariad ar y broses i gyflawni'r gyllideb refeniw ar gyfer 2017/18.

**9 ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2015/16** (Tudalennau 133 - 142)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (copi ynghlwm) ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, risg a rheolaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn sy'n llywio'r 'datganiad llywodraethu blynyddol'.

**10 CYNLLUN SICRWYDD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2016/17**  
(Tudalennau 143 - 156)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (copi ynghlwm) ar y Cynllun Sicrwydd Blynyddol Archwilio Mewnol 2016-17.

**11 DRAFFT O'R DATGANIAD LLYWODRAETHU A GWELLIANT BLYNYDDOL 2015/16** (Tudalennau 157 - 184)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (copi ynghlwm) sy'n darparu'r adroddiad hunanasesu ar drefniadau llywodraethu a gwella'r Cyngor ar gyfer 2015/16.

**12 ARCHWILIAD MEWNOL O GYNLLUN AMDDIFFYN ARFORDIROL  
GORLLEWIN Y RHYL CAM 3** (Tudalennau 185 - 208)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (copi ynghlwm) ar yr adroddiad Archwilio Mewnol diweddar ar y prosiect Amddiffynfeydd Arfordirol a gafodd sgôr sicrwydd 'Isel'.

**13 ADBORTH O'R CYFARFOD CYDRADDOLDEB CORFFORAETHOL**

Ystyried adroddiad ar lafar gan Bennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd ar yr adborth ar gyfarfod cydraddoldeb corfforaethol.

**14 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**  
(Tudalennau 209 - 212)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor (copi ynghlwm).

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Ann Davies  
Stuart Davies  
Peter Duffy

Alice Jones  
Jason McLellan

**Aelod Lleyg**

Paul Whitham

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 23 Mawrth 2016 am 9.00 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Stuart Davies, Peter Duffy a/ac Jason McLellan (Cadeirydd) a Mr Paul Whitham (Aelod Lleyg).

Roedd Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies, Hugh Evans, Bobby Feeley a/ac Julian Thompson Hillyn bresennol fel arsyllwyr.

### HEFYD YN BRESENNOL

Y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Y Pennaeth Archwilio Mewnol (IB), Y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (AS), Y Prif Swyddog Cyllid (RW), Y Prif Gyfrifydd (SG), Y Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau Addysg (IL), Y Rheolwr Cyllid Ysgolion (CJ), Arbenigwr Recriwtio (AM), Cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru (AV, GB, MP, CO) a Gweinyddwr y Pwyllgor (CIW).

Gofynnodd y Cadeirydd am gael cyfleu cydymdeimlad y Pwyllgor i deuluoedd y Cynghorwyr Richard Davies a Peter Owen oedd, gwaetha'r modd, wedi marw.

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Ann Davies a/ac Alice Jones.

#### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni wnaeth unrhyw aelod ddatgan cysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### 3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw faterion y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater brys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

#### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 27<sup>ain</sup> Ionawr, 2016.

Cywirdeb:- Nodwyd fod yr Aelod Lleyg Mr Paul Whitham yn bresennol yn y cyfarfod.

Materion yn codi:-

5. Ysgol Mair, Rhyl – Cynllun Adfer Ariannol:- Hysbysodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd yr Aelodau ei fod wedi cysylltu â Swyddfa Addysg yr Esgobaeth i gael ymatebion i'r materion a'r pryderon a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor, a derbyniwyd yr ymatebion a ganlyn:-

- Nid oedd gan yr Esgobaeth dîm ymgynghori arbenigol i ddarparu cymorth a chynghor i ysgolion ar faterion ariannol, ac awgrymwyd y dylai ysgolion gysylltu â'r Esgobaeth yn uniongyrchol i drafod materion ariannol.

- O ran yr amserlen mewn perthynas â secondio aelod o staff o Ysgol Mair, ynghyd ag ysgolion Catholig eraill yn Sir Ddinbych a all fod yn profi problemau tebyg i'r rheiny yn Ysgol Mair, byddai'n cael ei hanfon ymlaen i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd yn y dyfodol. Cytunodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd i gylchredeg y wybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor ar ôl ei derbyn gan Swyddfa Addysg yr Esgobaeth.

10. Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol – Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr P. Whitham, eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd y cynhaliwyd Gweithdy i ystyried y Cyfansoddiad ym mis Mawrth 2016, a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn nodi'r canlyniad.

**PENDERFYNWYD** – yn amodol ar yr uchod, fod y cofnodion yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

## **5 PROSES GYLLIDEB 2015/16**

Roedd adroddiad gan y Prif Gyfrifydd, oedd yn rhoi diweddariad ar y broses i ddarparu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2016/17, wedi ei gylchredeg ymlaen llaw.

Gyda chymorth y Prif Gyfrifydd, rhoddodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill, grynoded manwl o'r adroddiad. Eglurwyd bod yr adroddiad blaenorol ym mis Ionawr wedi crynhoi'r broses Rhyddid a Hyblygrwydd a lwyddodd i ddarparu cyllidebau cytbwys ar gyfer 2015/16 a 2016/17. Byddid yn parhau i lunio adroddiadau monitro perfformiad cyllideb misol i'r cabinet ac mae'r Grŵp Tasg a Gorffen Torri'r Brethyn ar waith i fonitro effaith penderfyniadau cyllidebol a gymerir fel rhan o'r broses.

Ar ôl derbyn y Setliad Terfynol ddechrau mis Mawrth roedd gwaith wedi dechrau ar ddiffinio proses newydd y gyllideb i gyflwyno cyllideb 2017/18. Sut bynnag, roedd y rhagdybiaethau a fyddai'n llywio manylion y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) a'r broses ei hun yn dal i gael eu datblygu. Roedd y Tybiaethau Allweddol oedd yn llywio Datblygiad y CATC wedi eu cynnwys yn yr adroddiad, ynghyd ag Egwyddorion Proses Gyllideb 2017/18.

Rhoddyd gwybod i'r Aelodau bod amserlen ddrafft wedi cael ei datblygu a fyddai'n agored i newidiadau pellach (gweler Atodiad 1). Roedd yr amserlen yn ymhelaethu ar bedwar cam canlynol proses y gyllideb:-

1) Diffinio a datblygu'r broses

- 2) Nodi cynigion cychwynnol
- 3) Ymgynghori ar, a chwblhau, cynigion
- 4) Y camau cymeradwyo terfynol

Eglurodd y Prif Gyfrifydd fod yr amserlen, Atodiad 1, wedi newid gan y cyflwynwyd y ffurflenni i'r UDRh cyn y dyddiad oedd wedi ei drefnu, sef 7<sup>fed</sup> Ebrill, 2016.

Amlinellwyd manylion y newidiadau ar gyfer yr Aelodau a phwysleisiwyd y byddai'r broses hon yn para am flwyddyn. Cadarnhawyd y byddai bob cam yn caniatáu ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu â'r rhanddeiliaid perthnasol. Byddai diweddariad pellach yn cael ei roi yn y cyfarfod nesaf, ac erbyn hynny byddwn wedi ymgynghori ar broses y gyllideb a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac wedi eu cymeradwyo. Yn seiliedig ar dybiaethau presennol o ran pwysau ariannu a chost, rhagwelir y bydd bwlch o £4.4 miliwn yng nghyllideb 2017/18. Mae adroddiadau blaenorol wedi tynnu sylw manwl at y broses ymgynghori sylweddol a wnaed i gyflawni cyllidebau 2015/16 a 2016/17.

Roedd proses y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2017/18 wedi ei chrynhai yn Atodiad1, ynghyd â manylion y broses ymgynghori a fabwysiadwyd. Eglurwyd ei bod yn debygol y byddai gostyngiadau cyllid i awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau yn y tymor canolig, ac er y bydd y Cyngor bob amser yn ymdrechu i fod yn fwy effeithlon er mwyn arbed arian, efallai na fydd hyn yn do'i hun yn ddigonol yn y dyfodol. Bydd penderfyniadau ar y gyllideb yn mynd yn galetach ac mae'n debyg y bydd angen rhagor o amser i'w cyflawni.

Bydd proses y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2017/18 yn helpu i gyflwyno cyllideb gytbwys a bydd yn galluogi'r Cyngor i ystyried rhagdybiaethau cyllid allweddol, pwysau gwasanaeth, lefelau arian parod wrth gefn a lefelau ffioedd a thaliadau yn y Cyngor.

Eglurodd y Cadeirydd ei fod yn falch bod yr effaith ar wasanaethau wedi cael ystyriaeth. Darparodd y Prif Swyddog Cyllid amlinelliad o sut y byddai'r effaith ar wasanaethau'n cael rhannu'n ddwy elfen gyda golwg ar gyflawni targedau effeithlonrwydd. Byddai'r rhain yn cael eu cynnig ac wedyn eu mabwysiadu gan y gwasanaethau priodol.

Pwysleisiodd y Cynghorydd S.A. Davies bwysigrwydd ymrwymo Aelodau ar gychwyn y broses, gyda sylw penodol i gyfraniad Aelodau yng Ngweithdai'r Gyllideb. Mynegodd bryderon am effaith penderfyniadau sy'n ymwneud â'r gyllideb ar y cyhoedd, ynghyd â chanlyniadau yn sgil y cynnydd cyflym yn niferoedd y disgyblion yn ysgolion Sir Ddinbych a'r cyfarwyddebau a dderbynnir mewn perthynas â'r lefelau arian parod wrth gefn a ddalir gan Gynghorau. Cyfeiriodd y Cadeirydd at brosesau gosod y gyllideb a phenderfyniadau a chymeradwyodd y barnau a fynegwyd gan y Cynghorydd Davies mewn perthynas â'r angen am fwy o ymrwymiad gan Aelodau ar gychwyn proses gosod y gyllideb. Amlinellodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill anghysondeb yn y codau lliw yn Atodiad 1, ac eglurodd y dylai'r cyfeiriad at 23<sup>ain</sup> Mawrth, 2016 fod mewn melyn ac nid yn las.

Teimlodd y Cynghorydd H.H. Evans bod proses gosod y gyllideb a fabwysiadwyd gan Sir Ddinbych yr un mor dda ag unrhyw un yng Nghymru, ac amlygodd problemau a brofwyd yn flaenorol o ran annog Aelodau i ymrwymo i'r broses.

Ystyriodd y Pwyllgor y barnau a fynegwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas ag ymrwymo Aelodau ar gychwyn proses y gyllideb, ac awgrymwyd y dylid ystyried y mater yn sesiwn yr Uwch Dîm Rheoli ar 7<sup>fed</sup> Ebrill, 2016 ac yn Sesiwn Briffio'r Cyngor ar 6<sup>ed</sup> Mehefin 2016.

Ystyriodd y Pwyllgor y barnau a fynegwyd gan y Pwyllgor ynghylch ymrwymo Aelodau ar gychwyn proses y gyllideb, ac awgrymwyd y dylid ystyried y mater yng Nghyfarfod yr Arweinyddion Grwpiau ar 4<sup>ydd</sup> Ebrill, 2016 ac yn Sesiwn Briffio'r Cyngor ar 6<sup>ed</sup> Mehefin 2016.

Darparodd y Prif Swyddog Cyllid a'r Prif Gyfrifydd amlinelliad o'r amserlenni sy'n ymwneud â phroses y gyllideb a'r effaith o ran y rhaglen ar gyfer gwneud penderfyniadau gweithredol.

Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid bod yr holl wybodaeth a gynhyrchwyd yn flaenorol ar gael yn llyfrgell yr Aelodau ac nad oedd yr egwyddorion wedi newid. Fodd bynnag, atgoffodd y Pwyllgor y byddai'r broses newydd yn dibynnu ar ganlyniad y Setliad Terfynol, a theimlodd efallai bod y targed arbedion yn uwch nag oedd ei angen.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, cytunodd y Cynghorydd H.H. Evans i godi'r mater yng nghyfarfod yr Arweinyddion Grwpiau ar 4<sup>ydd</sup> Ebrill. Cadarnhaodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill y byddai'n mynychu'r cyfarfod i ddarparu trosolwg ac i adrodd yn ôl i Aelodau.

***PENDERFYNWYD*** – yn unol â'r cynigion uchod, bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.  
***(RW, SG, Cynghorwyr HHE a JTH i Weithredu)***

## **6 DIWEDDARIAD AR DDIOGELU CORFFORAETHOL**

### **Adroddiadau AGGCC:-**

Cyn ystyried yr Adroddiad Diogelu Corfforaethol, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau mai'r weithdrefn a gytunwyd oedd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol dderbyn ac ystyried adroddiadau allanol. Eglurodd, oherwydd y cyfyngiadau o ran amser ac amserlennu cyfarfodydd, y bu rhaid cyflwyno adroddiad Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol 2014/15 i gyfarfod ffurfiol o'r Cyngor i'w dderbyn erbyn dyddiad penodol. Bwriadwyd hefyd y byddai'r Rheolwr Ardal yn cyflwyno'r adroddiad cyn gadael ei swydd, sut bynnag, ni fu modd iddo fynychu cyfarfod y Pwyllgor Archwilio priodol.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar 10<sup>fed</sup> Rhagfyr, 2015, ac y bu'n destun trafodaeth drylwyr a heriol. Eglurodd bod Adroddiad yr AGGCC wedi ystyried Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, fyddai'n cael ei gyflwyno hefyd i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad.

Rhoddyd gwybod i'r Aelodau bod yr adroddiad wedi ei archwilio'n drylwyr, a chadarnhawyd y byddai Adroddiadau AGGCC yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno i'r



Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol mewn fformat newydd. Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y byddai'r fformat newydd sydd i'w fabwysiadu gan yr AGGCC yn cael ei gyfleu i'r Cadeirydd, a'i gyflwyno i'r Grŵp Cadeiryddion Archwilio a'r Is Gadeiryddion.

Cadarnhaodd y Cadeirydd bod cofnodion y Pwyllgor Archwilio Perfformiad wedi eu cylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, a chytunodd yr Aelodau y bu Adroddiad yr AGGCC yn destun trafodaeth drylwyr a heriol.

### **Yr Adroddiad Diogelu Corfforaethol:-**

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu sy'n cyd-fynd â'r adroddiad Archwilio Mewnol ar Ddiogelu Corfforaethol ym mis Awst 2015, wedi ei gylchredeg ymlaen llaw.

Roedd yr adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth ar sut mae'r Cyngor yn gweithredu gwelliannau mewn diogelu corfforaethol ers cyhoeddi adroddiad Archwilio Mewnol yn 2015. Roedd yr adroddiad archwilio wedi rhoi 'Sicrwydd Isel', felly roedd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi gofyn am adroddiad cynnydd i sicrhau bod y materion a amlygwyd yn derbyn sylw.

Roedd yr adroddiad dilynol i'r Archwiliad Mewnol, Atodiad 1, yn dangos bod cynnydd da wedi ei wneud wrth weithredu'r cynllun gweithredu. Roedd llywodraethu wedi ei wella ac mae gan y Panel Diogelu raglen waith fwy penodol fel y gellir blaenoriaethu ei waith a monitro perfformiad. Cadarnhawyd bod mwy o adnoddau pwrpasol yn cael eu defnyddio ar gyfer diogelu corfforaethol trwy gael Cadeirydd y Panel i gynyddu ei gyfraniad, gan gynnwys cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr y Panel Gwasanaeth.

Roedd rhywfaint o waith yn dal i'w wneud i sicrhau bod aelodau o staff ac Aelodau Etholedig yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelu corfforaethol, gan gynnwys ymgyrch hybu i lansio'r Polisi Diogelu Corfforaethol newydd. Yn ogystal, mae angen datblygu a rhoi ar waith y modiwl hyfforddiant corfforaethol a gynlluniwyd ac mae angen i bob Aelod Etholedig fynychu'r sesiynau hyfforddi diogelu corfforaethol gorfodol. O ystyried y cynnydd a wnaed gyda'r Cynllun Gweithredu, rydym wedi gwella ein graddfa sicrwydd i 'Canolig'.

Mynegodd y Cadeirydd y farn nad oedd y bwriad cychwynnol y byddai Diogelu Corfforaethol yn cael ei weithredu ar draws y Sir wedi ei weithredu'n llawn. Sut bynnag, roedd yn cydnabod, er bod sawl un o'r materion yn y Cynllun Gweithredu wedi cael sylw, bod materion yn dal i fod heb eu datrys. Eglurodd y Cynghorydd H.H. Evans bod Aelodau a swyddogion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran Diogelu. Eglurodd y bu Cadeirydd y Panel yn gadarn o ran ei fwriadau o ran hyrwyddo cyflawni'r agenda Diogelu Corfforaethol, gyda'r lefel o drafod a herio wedi cynyddu. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Pwyllgor mai ei fwriad oedd mynychu cyfarfod nesaf y Panel fel arsyllwr.

Mynegodd Mr P. Whitham bryder bod amserlenni sy'n ymwneud â'r adroddiadau dilynol wedi llithro, gyda chyfeiriad arbennig at yr agweddau o ran hyrwyddo a

hyfforddiant. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi awgrym Mr Whitham y dylid cyflwyno adroddiad cynnydd pellach i'r Pwyllgor ym mis Medi 2016.

Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau yn cydnabod nad oedd rhai o'r terfynau amser wedi eu cyflawni. Sut bynnag, eglurodd y byddai'r broses yn parhau gyda rhai agweddau'n mynd yn eu blaenau'n barhaol. Un o'r prif agweddau oedd codi ymwybyddiaeth ar draws y Cyngor. Byddai eitem busnes yn cael ei gyflwyno eto i gyfarfod Briffio'r Cyngor ym Mehefin 2016 o ran Diogelu Corfforaethol a byddai'r Aelodau'n cael eu hannog i fod yn bresennol.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

**PENDERFYNWYD** – *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:-*

- (a) *yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*
  - (b) *yn cytuno y byddai adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi 2016, ac*
  - (c) *yn gofyn am annog Aelodau i fynychu cyfarfod Briffio'r Cyngor i ystyried yr eitem ar Ddiogelu Corfforaethol.*
- (NS, IB i weithredu)**

## **7 GWYDNWCH ARIANNOL CYNGHORAU YNG NGHYMURU – Y WYBODAETH DDIWEDDARAF**

Roedd adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid wedi ei gylchredeg ymlaen llaw.

Rhodddwyd gwybod i'r aelodau bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cwblhau asesiad o 'gydnerthedd ariannol' y Cyngor yn dilyn astudiaeth genedlaethol a gyhoeddwyd yn 2015. Roedd yr adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan y teitl 'Asesiad Gwydnwch Ariannol Cyngor Sir Ddinbych' wedi ei gynnwys fel Atodiad i'r adroddiad.

Cwblhawyd yr asesiad yn ystod y cyfnod Mai i Hydref 2015, ac roedd yn dilyn i fyny materion a amlygwyd yn y gwaith ar sefyllfa ariannol 2014-15. Roedd ffocws y gwaith ar gyflwyno cynlluniau arbedion 2014-15, a'r cyfnod cynllunio ariannol 2015-16. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol priodol ar waith.

Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid bod yr adroddiad yn rhoi asesiad cadarnhaol o drefniadau ariannol y Cyngor. Roedd polisi'r Cyngor ar ffioedd a thaliadau wedi ei nodi yn y Rheoliadau Ariannol ac mae wedi ei gynnwys mewn rowndiau cyllideb blynyddol. Teimlwyd y byddai hyn yn cael ei wella fel rhan o broses 2017/18 a byddai cofrestrau adrannol yn cael eu cynnal.

Roedd Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru (GB) wedi canolbwyntio ar un argymhelliad sef sefydlu polisi ffurfiol ar gynhyrchu incwm a chodi ffioedd ynghyd â chofreser o ffioedd a nodwyd gan adrannau, a byddai hyn yn cael sylw ym mhroses cyllidebu 2017/18. Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau nad oedd gan Sir Ddinbych ymagwedd gorfforaethol tuag at gynhyrchu incwm, a theimlwyd y gall fod yn fanteisiol i Aelodau gael trafodaeth wleidyddol am y mater hwn, a chyfeiriwyd at yr ymagwedd sydd wedi ei mabwysiadu gan Gynghorau eraill. Cyfeiriodd

Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru (AV) at y cyfyngiadau sydd wedi eu gorfodi ar Gynghorau yn nhermau cynhyrchu incwm a chyfeiriodd at y croes-gymhorthdal ar gyfer gwasanaethau. Amlygodd bwysigrwydd sicrhau cael gfael strategol ar y ffynhonnell incwm i'r Awdurdod ynghyd â'r hyblygrwydd sydd ar gael yn nhermau ei dosbarthu.

Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid bod polisi ffurfiol y Cyngor o ran penderfyniadau yng nghyswllt adolygu ffioedd a thaliadau wedi eu datganoli i'r Penaethiaid Gwasanaeth priodol, a fyddai'n mynd ag unrhyw newidiadau arfaethedig drwy'r broses gyllidebu briodol. Cyfeiriodd y Prif Swyddog Cyllid at y terfynau a orfodwyd o ran y prif feysydd codi tâl.

Mewn ymateb i awgrymiadau gan Aelodau'r Pwyllgor o ran yr angen am bolisi troswaol ar gyfer cynhyrchu incwm, teimlodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill bod angen hyblygrwydd. Amlinellodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd natur gymhleth y broses o osod ffioedd a thaliadau, ac amlygodd yr angen i ystyried effaith unrhyw benderfyniadau a wnaed ar fusnesau lleol a'r gymuned yn gyffredinol. Eglurodd y byddai'n bwysig cydymffurfio â gofynion a chyfyngiadau deddfwriaethol, ynghyd â'r angen i gyfiawnhau, mewn rhai amgylchiadau, mai dim ond costau oedd yn cael eu hadfer.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, eglurodd y Cadeirydd y byddai trafodaeth y Pwyllgor yn cael ei chynnwys yn y trafodaethau ynglŷn â'r gyllideb.

***PENDERFYNWYD*** – *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r argymhelliad gan Swyddfa Archwilio Cymru.*

## **8 RHEOLI RISG DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL**

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad, oedd yn egluro'r newidiadau a fynnir yn y modd y mae'r Cyngor yn rheoli risg o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, wedi ei gylchredeg ymlaen llaw.

Darparodd y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad grynodedb manwl o'r adroddiad. Eglurodd er mwyn cydymffurfio â'r Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae angen i'r Cyngor adolygu'r ffordd y mae'n rheoli risg, ac roedd yr adroddiad yn archwilio rhai o'r materion mae'r newid hwn yn eu codi ar gyfer y Cyngor, ac yn ystyried ei effaith bosibl ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Roedd Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys newidiadau pellgyrhaeddol i'r ffordd y mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal ei fusnes, a byddai angen iddo yn y dyfodol ddangos sut y mae'n cyfrannu at y saith nod trwy gyhoeddi amcanion Lles blynyddol. Yn fwy sylfaenol fyddai'r disgwyliad y byddai'r Cyngor yn newid y ffordd y mae'n gwneud penderfyniadau trwy gymryd i ystyriaeth y pum Egwyddor Datblygu Cynaliadwy: Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithredu, Cynnwys.

Rhoddodd y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad grynodedb o bob un o'r pum Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a gynhwyswyd yn yr adroddiad. Cyfeiriwyd at yr her o ran rheoli risg, gyda risgiau'n cael eu rhannu'n rhai 'gweithredol' tymor byr

a rhai 'strategol' hirdymor. Roedd manylion yn ymwneud â rheoli risgiau penodol, ynghyd â'r camau lliniarol a'r opsiynau a weithredwyd i liniaru'r risgiau cymhleth, wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad.

Rhodddwyd cadarnhad gan y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad bod y Cyngor yn hyderus bod eu proses risg weithredol gyfredol yn addas i'r diben. Sut bynnag, y dasg fwy fyddai dechrau datblygu'r offerynnau a'r technegau a fyddai'n helpu i fodelu'r broses yn y dyfodol yn well.

Roedd y Cyngor yn gweithio gydag Awdurdodau partner i ddatblygu dull o asesu effaith, ac roeddynt hefyd yn treialu gwaith gwydnwch yn y gymuned y bwriedir iddo hybu meddwl hirdymor ac ymgysylltiad adeiladol mewn perthynas â phroblemau a rennir. Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai gwaith pellach yn cael ei ddatblygu wrth ddechrau defnyddio'r pum Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

Mynegwyd pryder gan y Cynghorydd S.A. Davies bod y Ddeddf wedi ei gweithredu a'i phenderfynu gan Lywodraeth Cymru. Cwestiynodd ei ffiniau, ei dulliau a lefel yr ymgysylltiad â'r cyhoedd ynghyd â'r disgwyliadau o'r Ddeddf. Eglurodd y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad bod sawl agwedd a gofynion y Ddeddf yn cael sylw gan y Cyngor ar hyn o bryd, a bod Aelodau Etholedig eisoes yn ymgysylltu â'r gymuned leol a'r cyhoedd yn gyffredinol. Cyfeiriodd at bwysigrwydd archwilio dulliau o gryfhau'r gymuned, ynghyd ag archwilio ymagweddau eraill o ran gwneud penderfyniadau, gyda golwg ar sicrhau lefel o welliant ar gyfer cenedlaethau i'r dyfodol.

Eglurodd y Cynghorydd H.H. Evans ei bod yn anochel y byddai'r Ddeddf yn cael ei chyflwyno ac y byddai'n bwysig canfod lefel y pwyslais y dylid ei roi ar ei datblygu. Cyfeiriodd at sawl maes y byddid yn cael eu dylanwadu gan y Ddeddf, gyda chyfeiriad penodol at Addysg a Diogelu, ac amlygodd yr angen i wneud y gorau o'r agweddau cadarnhaol sydd wedi eu hymgorffori yn y Ddeddf. Mynegodd y farn na fyddai ymgysylltu'n tanseilio rôl Aelodau ac mai Cynllun Corfforaethol y Cyngor fyddai'r dylanwad fyddai'n gyrru pethau yn eu blaenau ar gyfer yr Awdurdod, gan ystyried egwyddorion arweiniol y nodau o fewn y Ddeddf.

Cytunodd y Cadeirydd â'r barnau a fynegwyd gan gynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru o ran yr angen i edrych ar y darlun ehangach a'r angen am newid meddylfryd, wrth beidio â chael ein gyrru gan fiwrocratiaeth. Mewn ymateb i gwestiwn gany Pwyllgor, eglurwyd, os oedd y Cyngor yn anwybyddu neu'n methu â mynd i'r afael â gofynion y Ddeddf, yna gallant fod yn agored i'w herio yn y dyfodol. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democraidaidd bod y Ddeddf yn cyfeirio at weithredu neu gymryd camau rhesymol, ac os ystyriwyd bod camau gweithredu cyfiawn wedi eu cymryd, yna ni fyddai achos i weithredu.

Roedd y Cynghorydd P.C. Duffy wedi amlygu pwysigrwydd cynllunio ymlaen er budd cenedlaethau'r dyfodol, ynghyd ag asesu unrhyw risgiau cysylltiedig, a mynegodd y farn y gallai cyflwyno rhagor o astudiaethau peilot fod yn fanteisiol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd H.H. Evans at y buddion posibl y gellid eu cyflawni drwy fonitro gweithredu gan gyrff a sefydliadau eraill ynghyd ag asesu lefel yr ymrwymiad. Awgrymodd y dylid defnyddio'r Ddeddf fel cyfrwng i wella darpariaeth

gwasanaeth gydag adnoddau cyfyngedig, ac y dylid ymgorffori'r Ddeddf o fewn y broses benderfynu.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, cyfeiriwyd at dreialu gwaith o ran gwydnwch yn y gymuned gyda'r bwriad o feddwl am broblemau a rennir o safbwynt hirdymor ynghyd â mynd ati i ymgysylltu mewn modd adeiladol (People to People yn Llangollen). Eglurwyd yr ymgwymerwyd â'r cynllun yn Llangollen a bu'r ymateb yn gadarnhaol iawn. Mewn ymateb i gais i swyddogion, cytunwyd y dylid cyfleu canlyniad y prosiect i'r Cadeirydd ac yna ei anfon ymlaen i Aelodau'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD** – *derbyn a nodi'r adroddiad.*  
(*AS i Weithredu*)

## **9 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

Darparodd y Cadeirydd adroddiad llafar ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Eglurodd bod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor wedi ei ddiffinio yng Nghyfansoddiad y Cyngor, a bod ganddo'r rôl o sicrhau bod gan Sir Ddinbych fframwaith llywodraethu cadarn oedd yn addas i'r diben.

Roedd manylion y meysydd gwaith a ganlyn, yr ymgwymerwyd â hwy gan y Pwyllgor yn ystod y deuddeng mis diwethaf, yn cynnwys:-

Prif Feysydd:-

- Rôl archwilio oedd yn cynnwys craffu ar adroddiadau archwilio mewnol, ystyried canfyddiadau adroddiadau archwilio allanol ynghyd â derbyn a chymryd trosolwg o adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru.
- Rheoli Risg Corfforaethol, canfod ac adolygu risgiau a sicrhau bod System Rheoli Risg yr Awdurdod ynghyd â'i Strategaeth Rheoli Gwybodaeth yn gadarn.
- Rôl Ariannol oedd yn cynnwys goruchwyllo Rheolaeth Gyllidol y Cyngor, Proses y Gyllideb, Datganiad y Cyfrifon, Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus.
- Rheoli Gwybodaeth a materion o ran Diogelu Data.
- Newidiadau i'r Cyfansoddiad a'r rhaglen Gaffael.
- Datganiadau Llywodraethu Blynyddol a Chwynion ac adborth.

Meysydd Gwaith eraill:-

- Monitro gwasanaethau cyhoeddus a ariennir gan y Cyngor.
- Taliad Ariannol i Rai Sy'n Gadael Gofal.
- Adroddiad Gwella Blynyddol a'r goblygiadau i Bolisi Tai y Cyngor.
- Diwygio'r Llywodraeth a materion o ran Llesiant.
- Materion Diogelu Corfforaethol.
- Datganiad y Cyfrifon a'r Adroddiad Archwilio a gyflwynir gyda lefel uchel o sicrwydd.
- Derbyn Adroddiad Rheoli'r Trysorlys, trosolwg o fuddsoddiad a gweithgaredd.
- Negydu strategaeth ymadael y PFI mewn perthynas â Neuadd y Sir, Rhuthun.

- Y cyfansoddiad a gwaith parhaus mewn perthynas â'r Cynllun Dirprwyo.
- Ymgynghoriad y Llywodraeth ar Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth.
- Diweddarau'r codau a'r protocol o ran cysylltiadau rhwng Aelodau a swyddogion.
- Goruchwyllo materion Diogelu a nodi tueddiadau.
- Cyllid ysgolion a chefnogaeth i Gyrrff Llywodraethu Ysgolion.
- Effaith y Pwyllgor Addysg a Gwasanaethau Plant.
- Cynorthwyo i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei Flaenoriaethau Corfforaethol.
- Darparu trosolwg o amryw bolisiau'r Cyngor fel y Polisiau Rhannu Pryderon a Thwyll a Llygredd.
- Ymateb i adroddiadau yn y cyfryngau a mynd i'r afael â hwy.
- Mynd i'r afael ag amryw faterion penodol fel y maent yn codi.
- Gwaith yn ymwneud ag amddiffynfeydd arfordirol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Tîm Archwilio Mewnol a Swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru am y gwaith a wnaed ganddynt a'r cymorth a ddarparwyd i'r Pwyllgor. Yn ogystal, darparodd gadarnhad y byddai Adroddiad Blynyddol ysgrifenedig ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei cyflwyno i gyfarfod y Cyngor Sir ym Mai 2016.

**PENDERFYNWYD** – *bod:-*

*(a) Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, ynghyd ag*

*(b) adroddiad a oedd yn manylu ynghylch y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ym Mai 2016.*

**(JM (Cadeirydd) i Weithredu)**

## **10 ADRODDIAD DIWEDDARU RHEOLI'R FFLYD GORFFORAETHOL**

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wrth weithredu'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â'r Adroddiad Archwilio Mewnol ar Reoli'r Fflyd Gorfforaethol ym mis Hydref 2015, wedi ei gylchredeg ymlaen llaw.

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol yr adroddiad oedd yn darparu gwybodaeth am sut mae'r Cyngor yn gweithredu gwelliannau o ran rheoli'r fflyd ers cyhoeddi'r adroddiad Archwilio Mewnol yn 2015. Mewn ymateb i'r ffaith fod yr Adroddiad Archwilio Mewnol wedi rhoi 'Sicrwydd Isel', roedd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi gofyn am adroddiad cynnydd i sicrhau bod y materion yn cael sylw.

Roedd cynllun gweithredu dilynol Archwilio Mewnol, Atodiad 1, yn dangos bod cynnydd da yn cael ei wneud gyda gweithredu'r materion a'r risgiau a nodwyd gan Archwilio Mewnol. Gan mai dim ond archwiliad dilynol interim oedd hwn, byddid yn parhau i fonitro cynnydd a byddid yn cyhoeddi adroddiad dilynol ffurfiol gyda sgôr sicrwydd newydd.

Er bod rhai camau gweithredu sy'n weddill yn dal i fod, mae'r prif faterion eisoes wedi cael sylw, megis datblygu Polisi Cludiant newydd y mae angen ei gymeradwyo a'i gyhoeddi bellach. Mae materion iechyd a diogelwch hefyd wedi cael sylw trwy wella gweithdrefnau sefydlu, adolygu adrodd am ddiwyddiadau a gwella prosesau trwyddedau gyrwyr.

Cyfeiriodd Mr P. Whitham at gynnydd o ran y meysydd a amlygwyd fel rhai oren a melyn, a gofynnodd am gael cyflwyno adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor ym mis Medi 2016. Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Mr Whitham mewn perthynas â datgan unrhyw salwch nau anomaleddau o ran trwyddedau gyrru, eglurodd y Pennaeth Archwilio Mewnol bod y meysydd hyn wedi eu cynnwys a'u datrys yn dilyn llunio Ffurflenni Apwyntiad newydd.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd mewn perthynas â defnyddio ffonau symudol gan weithwyr wrth yrru, eglurodd y Pennaeth Archwilio Mewnol bod hyn yn groes i'r gyfraith ac y gallai fod yn fater disgyblu.

**PENDERFYNWYD** – bod:-

- (a) yr adroddiad yn cael ei dderbyn a bod y sefyllfa'n cael ei nodi, a
- (b) bydd adroddiad cynnydd pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi 2016.

**(IB i Weithredu)**

## **11 RHEOLAETH ARIANNOL YSGOLION - Y WYBODAETH DDIWEDDARAF**

Darparwyd adroddiad llafar ar drefniadau rheolaeth ariannol ysgolion gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, y Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau Addysg a'r Rheolwr Cyllid Ysgolion.

Cyfeiriodd y Pennaeth Archwilio Mewnol at drafodaethau yn y cyfarfod blaenorol mewn perthynas â'r Cynllun Adfer Ariannol ar gyfer Ysgol Mair, Rhyl, ynghyd â phryderon a chwestiynau a godwyd gan Aelodau mewn perthynas â threfniadau a phrosesau Rheolaeth Ariannol Ysgolion, a rôl Rheolwyr Busnes a Chyllid Ysgolion. Mynegodd y Cadeirydd bryder nad oedd ysgolion oedd wedi profi anawsterau ariannol wedi cael Ymgynghorydd Ariannol ar gyfer Ysgolion, a cheisiwyd eglurhad ynghylch y ddarpariaeth o gyngor ac arweiniad ariannol sydd ar gael i ysgolion ynghyd â manylion y prosesau sydd yn eu lle i ddarparu cymorth.

Amlinellodd y Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau Addysg y broses mewn ysgolion clwstwr, yr oedd gan addynt Reolwr Busnes a Chyllid ym mhob un o'r Ysgolion Uwchradd sydd wedyn yn darparu cymorth i'w hysgolion bwydo priodol. Cyfeiriodd at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eglurodd yr ystyriwyd bod y broses a fabwysiadwyd yn Sir Ddinbych yn enghraifft dda, a'i bod yn cael ei gweld fel model ar gyfer Cymru yn nhermau y gweithdrefnau a'r prosesau a fabwysiadwyd. Cyfeiriwyd at yr heriau sy'n cael eu wynebu gan ysgolion i'r dyfodol oedd yn profi pwysau ariannol cynyddol.

Cadarnhawyd y byddai'r Rheolwr Cyllid Ysgolion yn ymweld ag ysgolion sy'n cael anawsterau i ddarparu cymorth a chyngor, ac y byddai'r cymorth a'r help o'r clwstwr yn cynorthwyo i fynd i'r afael â phroblemau. Eglurodd Mr P. Whitham y nodwyd na fu Ysgol Mair, y Rhyl, yn rhan o Glwstwr y Rhyl.

Mewn ymateb i bryder a godwyd gan y Cynghorydd S.A. Davies ynghylch y newidiadau mewn amcanestyniadau, darparodd y Rheolwr Cyllid Ysgolion gadarnhad y gallai prosiectau newid ar fyr rybudd am sawl rheswm ac amlygodd yr anawsterau a wynebwr o ran rhagweld a mynd i'r afael â'r amcanestyniadau. Yn ogystal, awgrymodd y Cynghorydd Davies y gellid cysylltu â'r Esgobaeth gyda gylwg ar geisio cynnydd yn lefel y gefnogaeth a'r cymorth ariannol ar gyfer eu hysgolion priodol.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau at y Darpariaethau Statudol yr oedd yn ofynnol i ysgolion eu cyflawni oedd yn cyfrannu at yr anawsterau a wynebwr wrth rhagweld amcanestyniadau, gyda chyfeiriad arbennig at y cymarebau athro i ddisgybl, materion iechyd a diogelwch a ffigurau derbyn.

Rhoddodd y Prif Gyfrifydd wybod i'r Aelodau bod ffigurau mewn perthynas â demograffi wedi eu hymgorffori yn y broses, a darparodd fanylion goblygiadau effaith Cronfa Bensiwn yr Athrawon ar y gyllideb ysgolion.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd P.C. Duffy ynghylch lefel y gefnogaeth a ddarperir i Ysgol Mair, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y gwahoddiwyd y swyddogion i fynychu'r cyfarfod blaenorol gan y gellid fod wedi darparu rhagolwg manylach o'r amgylchiadau. Cadarnhaodd bod cymorth a chefnogaeth, a ddarperir gan dîm rhagweithiol ac ymroddedig iawn, ar gael i bob ysgol, ac na dderbyniwyd unrhyw gwynion ynghylch lefel neu ansawdd y gefnogaeth a'r cymorth a ddarparwyd. Cefnogodd yr Aelodau'r farn a fynegwyd gan y Cadeirydd sef, yn achos bod unrhyw achosion tebyg yn cael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor am ystyriaeth, byddai'r swyddogion priodol yn cael eu gwahoddi i fynychu. Cadarnhaodd y Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau Addysg bod cefnogaeth a chymorth ar gael i Ysgol Mair, a rhoddodd fanylion y materion a'r problemau a brofwyd yn yr ysgol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau ynghylch y mecanweithiau a roddwyd ar waith i wella'r broses amcanestyniadau, eglurodd y Prif Gyfrifydd, er mai'r cynnig oedd i anrhydeddu amddiffyniad ar gyfer Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion, rhagwelwyd y gallai nifer yr ysgolion oedd yn profi anawsterau gynyddu oherwydd pwysau chwyddiant a'r gostyngiad ym malansau ysgolion dros flynyddoedd diweddar, sydd wedi lleihau'r lefel o hyblygrwydd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai adroddiad cynnydd o ran Ysgol Mair yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Medi 2016, a chytunwyd y byddai'r swyddogion priodol yn cael eu gwahoddi i fod yn bresennol.

**PENDERFYNWYD** – bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cytuno:-



- (a) *bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn a'i nodi.*
  - (b) *i wahodd swyddogion i fynychu cyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi 2016 i ystyried yr adroddiad cynnydd mewn perthynas ag Ysgol Mair, y Rhyl ac*
  - (c) *yn achos cyflwyno unrhyw achosion tebyg gerbron y Pwyllgor ar gyfer eu hystyried, y byddai'r swyddogion priodol yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol.*
- (IL, CJ, IB i Weithredu)**

## **12 POLISI RHANNU PRYDERON**

Roedd adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Adnoddau Dynol, ar y Polisi Rhannu Pryderon oedd wedi ei ddiwygio, ei ddiweddarau a'i adolygu yn unol â deddfwriaeth, wedi ei gylchredeg ymlaen llaw.

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd yr adroddiad oedd yn ceisio cael cytundeb y Pwyllgor i argymhell y polisi hwn i'r Cyngor i'w fabwysiadu. Roedd y Polisi'n rhoi sicrwydd i staff y gallant godi materion o bryder heb ofni eu cosbi, ac roedd yn darparu system rhybudd buan a allai ganfod problem bosibl.

Roedd y polisi wedi cael ei ddiweddarau a'i ailfformatio i gynnwys rolau a chyfrifoldebau cliriach a'r newidiadau deddfwriaethol. Daeth y Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio (2013) â nifer o newidiadau fyddai'n effeithio ar rannu pryderon. Roedd y tri newid allweddol yn cynnwys:-

- i) Dim ond datgeliadau a wnaed 'er budd y cyhoedd' sy'n cael eu gwarchod. Erbyn hyn mae'n rhaid i weithwyr ddangos eu bod 'yn rhesymol gredu' bod y datgeliad maent yn ei wneud 'er lles y cyhoedd'.
- ii) Cael gwared ar y gofyniad i ddatgeliadau gael eu gwneud yn 'ddidwyll' er mwyn eu diogelu.
- iii) Gwneud cyflogwyr yn atebol am weithredoedd y gweithwyr (megis aflonyddu ar gydweithwyr sydd wedi codi pryder) a gwneud gweithwyr yn atebol yn bersonol. Roedd copi o'r Adroddiad wedi ei gynnwys fel Atodiad 1 i'r adroddiad.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau bod y polisiâu i gyd wedi bod i'r Cyd Gyfarfod Corfforaethol am sylwadau ac i'r CGC am adborth. Cadarnhawyd nad oedd risgiau ond yn gysylltiedig â pheidio â gweithredu'r Polisi. Mae'r fersiynau presennol o'r Polisi wedi dyddio'n fawr iawn o ran deddfwriaeth a rhaid i ni sicrhau bod y Polisi'n cael ei weithredu'n gywir ac yn gyson.

Cyfeiriodd Mr P. Whitham at Dudalen 111 ac awgrymodd y dylai'r geiriau "o fewn" yn y frawddeg "rhywbeth o'i le o fewn y Cyngor" gael eu haileirio gan y gallai mater fod ynghylch y Cyngor neu y gellid ei adnabod gan rywun, fel contractwr, nad yw'n cael ei gyflogi'n uniongyrchol gan y Cyngor. Cadarnhawyd y byddai'r Polisi'n berthnasol i'r holl aelodau staff, ac y gellid ei fabwysiadu gan ysgolion pe dymument wneud hynny.

Mewn ymateb i fater a amlygwyd gan gynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch yr anawsterau posibl y gellid eu canfod mewn perthynas â chyfrinachedd, darparodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd amllinelliad o lefel y manylion y gellid eu darparu mewn perthynas â datgelu

gwybodaeth. Mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd ynghylch elfen lles y cyhoedd o'r Ddeddf, eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd bod y Polisi'n nodi'n fanwl sut y byddai'r elfen amddiffyn yn cael ei gweithredu o ran datgeliadau.

**PENDERFYNWYD** – bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn argymhell i'r Cyngor gymeradwyo'r polisi uchod.  
**(GW, AM i Weithredu)**

### 13 CYNLLUN ARCHWILIO 2016 - CYNGOR SIR DDINBYCH

Roedd adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid wedi ei gylchredeg ymlaen llaw, ynghyd â chopi o lythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i Brif Weithredwr y Cyngor Sir.

Cyflwynodd cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru (AV a GB) yr adroddiad oedd yn ymgorffori 'Cynllun Archwilio 2016 - Cyngor Sir Ddinbych'. Roedd yr adroddiad yn egluro'r rhaglen waith sydd wedi ei chynllunio ar gyfer dwy raglen archwilio perfformiad ac archwilio ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn rhoi manylion y ffi ar gyfer y gwaith, manylion o safbwynt y tîm archwilio a'r amserlen ar gyfer y gwaith. Byddai'n ofynnol i'r archwilydd allanol baratoi a chyflwyno'r adroddiad hwn er mwyn cyflawni eu gofynion o dan safonau archwilio ac arferion archwilio priodol.

Roedd yr adroddiad yn rhoi amlinelliad i'r Cyngor o raglen waith yr archwiliad ariannol a'r archwiliad o berfformiad. Roedd y rhaglen archwilio ariannol yn ymwneud â'u gwaith o safbwynt datganiadau ariannol 2015-16. Roedd hefyd yn darparu gwybodaeth am y dull archwilio, gan gynnwys y risgiau archwilio allweddol sydd wedi eu nodi yn ystod y broses gynllunio gychwynnol a'r camau bwriedig i fynd i'r afael â hwy. Byddai'r gwaith archwilio ariannol ar y meysydd risg hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio barn archwilio ar y datganiadau ariannol.

Roedd y rhaglen waith archwiliad o berfformiad yn ymwneud â'u gwaith o safbwynt y Mesur Llywodraeth Leol. Roedd y gwaith archwilio ariannol a pherfformiad hefyd yn adolygu'r trefniadau a roddwyd ar waith gan y Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Darparwyd crynodeb o gynnwys Cynllun Archwilio 2016 – Cyngor Sir Ddinbych, oedd yn cynnwys:-

- Archwiliad Ariannol.
- Ardystio hawliadau a ffurflenni grant.
- Gwaith arall a gyflawnir.
- Archwilio perfformiad.
- Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen.
- Yr amserlen.
- Datblygiadau o ran y gwaith archwilio yn y dyfodol.

Atodiad 1:- Prif gyfrifoldebau.

Atodiad 2:- Gwaith perfformiad sydd yn dal ar y gweill o amlinelliad archwilio'r llynedd.

Atodiad 3:- Astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol.

Darparwyd crynodeb o'r llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, rhaglen astudiaethau Llywodraeth Lleol a rhaglen archwilio perfformiad 2016/17, ar gyfer y Pwyllgor. Eglurwyd, o ganlyniad i ymgynghori, roedd y cynllunio o ran yr archwiliad mewn perthynas â'r agwedd berfformiad wedi bod yn amwys. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod y llythyr yn nodi'n fanwl y cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod, gyda chyfeiriad arbennig at y tair astudiaeth llywodraeth leol oedd wedi eu gwneud ar draws Cymru, ynghyd â'r newid ymagwedd tuag at y gwaith a gyflawnwyd mewn Cynghorau o ganlyniad i dynnu swm sylweddol o'r cyllid grant WPI yn ôl.

Darparwyd manylion y rhaglen waith arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod a thynnwyd sylw at y pwyntiau mwyaf amlwg a ganlyn o fewn y llythyr:-

- Manylion yr astudiaethau arfaethedig.
- Y tri adolygiad thematig oedd yn cynnwys Gwydnwch Ariannol, Llywodraethu a Thrawsnewid.
- Gwaith mewn perthynas â chynnal Asesiad Corfforaethol ar sail ymagwedd risg fel rhan o'r Adolygiad Llywodraethu.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd S.A. Davies, amlinellodd cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru (GB) y byddai'r ymagwedd wahanol oedd i'w mabwysiadu gyda chyflwyno tri adroddiad ar wahân wedi codi o ganlyniad i gynnig LIC i ddiddymu'r Mesur Llywodraeth Leol oedd yn gorfodi cyfyngiadau penodol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru am yr adroddiad, a:-

***PENDERFYNWYD*** – *bod y Pwyllgor yn derbyn ac yn nodi cynnwys adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.*

## **14 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

Roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a gylchredwyd yn flaenorol) wedi ei chyflwyno ar gyfer ei hystyried.

Cadarnhaodd y Pwyllgor Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, yn amodol ar gynnwys yr adroddiadau a ganlyn:-

27<sup>ain</sup> Ebrill, 2016:-.

- Dylid newid yr "Amlinelliad o Gyfrifon Archwilio Ariannol Blynyddol a Hysbysiad o Ardystiad o Gyfrifon" i'r "Archwiliad Ardystio Grant".
- Dylai'r "Adroddiad Gwelliant Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru – Y Wybodaeth Ddiweddaraf 2015/16" fod yn adroddiad terfynol ac nid yn ddiweddariad.

15<sup>fed</sup> Mehefin, 2016:-

- Dylai Adroddiad Hunanwerthuso'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gael ei gynnwys yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer Mehefin 2016.

13<sup>eg</sup> Gorffennaf, 2016:-

- Dylid cynnwys yr Adroddiad Blynyddol ar Rannu Pryderon yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer Gorffennaf 2016.

- Aildrefnu "Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru – Y Wybodaeth Ddiweddaraf 2015/16" ar gyfer Ebrill 2016.

***PENDERFYNWYD*** – yn amodol ar yr uchod, bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

***(CIW i Weithredu)***

Daeth y cyfarfod i ben am 13.20 p.m.

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol  
**Dyddiad y Cyfarfod:** 27 Ebrill, 2016  
**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Nicola Stubbins  
**Awdur yr Adroddiad:** Steph O'Donnell  
**Teitl:** **Uno gwasanaethau Addysg a Phlant**

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol nodi'r adroddiad Prawf Sicrwydd sy'n amgaeedig. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o'r Prawf Sicrwydd ar gyfer uno Gwasanaeth Addysg a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yng Nghyngor Sir Ddinbych. Mae'r ddau wasanaeth wedi bod yn gweithredu fel un gwasanaeth, gwasanaethau Addysg a Phlant, ers Ionawr 2016.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol er gwybodaeth ac i gynnig sicrwydd bod y broses o drosglwyddo i'r gwasanaeth newydd wedi ei rheoli'n dda a risgiau wedi'u lliniaru.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir bod prawf dilynol yn cael ei gwblhau gydag adborth cryno i'r cyfarfod Llywodraethu corfforaethol cyn diwedd 2016/17.

## 4. Manylion yr Adroddiad

### 4.1 Cefndir

Ym mis Medi 2014, datganodd y Prif Swyddog Gweithredol newidiadau arfaethedig i strwythur sefydliad y Cyngor, gan gynnwys dwyn ynghyd y Gwasanaeth Addysg a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i greu gwasanaeth newydd, Gwasanaethau Addysg a Phlant. Mae hyn wedi bod yn orfodol yn Lloegr ers dros ddegawd ac mae'n fwyfwy cyffredin yng Nghymru.

Cytunwyd datblygu Prawf Sicrwydd a'i gynnal fel rhan o'r broses o drosglwyddo i'r strwythur sefydliad newydd. Mae'r Prawf yn anelu at ddarparu sicrwydd y bydd dyletswyddau statudol y Cyngor tuag at blant a phobl ifanc yn cael eu cynnal a'u cryfhau drwy'r strwythur sefydliad newydd. Bydd ailadrodd y Prawf Sicrwydd yn cynnig sicrwydd dros gyfnod o amser bod y gwasanaeth newydd yn cydymffurfio â'r atebolrwydd statudol.

### 4.2 Cwmpas y Prawf Sicrwydd

Dangosodd y Prawf Sicrwydd:

- ✓ bod Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant a'r Cyfarwyddwr Addysg yn cyflawni dyletswyddau statudol
- ✓ penderfyniadau dirprwyedig ac unrhyw risgiau cysylltiedig a sut bydd y rhain yn cael eu rheoli
- ✓ cryfderau a meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth newydd, o ran bodloni a rhagori ar ddyletswyddau statudol, a gwneud y mwyaf o botensial tîm Addysg a Phlant cyfunol.
- 17 Canfu AGGCC fod y Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd da o ran ei gynllun pum mlynedd i foderneiddio ei wasanaethau cymdeithasol a fydd yn cynnwys trawsnewid patrwm gwasanaethau gofal cymdeithasol, yn ogystal â newid ffurf y gweithlu a gyflogir i ddarparu gofal a chymorth. Cred y Cyngor y bydd newid diwylliannol yn ei helpu i baratoi ar gyfer rhoi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith ac ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy. Caiff aelodau etholedig a staff eu briffio'n dda ac maent yn deall goblygiadau'r Ddeddf. Roedd gwaith paratoi ar gyfer hyn yn ystod y flwyddyn yn cynnwys ad-drefnu'r seilwaith o uwch reolwyr, gan greu adran newydd ar gyfer gwasanaethau cymorth cymunedol yn ymgorffori gwasanaethau cymdeithasol oedolion a gwasanaethau digartrefedd, ac uno gofal cymdeithasol plant ag addysg hefyd i greu un adran ar ddechrau 2016.
- 18 Mae'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu â phobl sy'n defnyddio ei wasanaethau a nodu AGGCC fod y Cyngor hefyd wedi rhoi proses gadarn ar waith i gasglu profiadau a safbwyntiau pobl ifanc gan gynnwys defnydd cadarn o gyfryngau cymdeithasol. Canfu'r AGGCC hefyd fod y Cyngor yn parhau i ddangos ymrwymiad, creadigrwydd a phragmatiaeth yn ei ymateb i 'Mwy Na Geiriau'<sup>2</sup>, gyda thystiolaeth glir o gynnydd rhagorol yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn a ddangosir drwy arweinyddiaeth strategol, gwaith hyrwyddo, mynediad dwyieithog i bobl a hyfforddiant i'r gweithlu wedi'u cynllunio i wella ymwybyddiaeth a chynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg, ac i wella hygyrchedd gwasanaethau cymdeithasol yn yr iaith ofynnol.
- 19 Mae'r Cyngor yn parhau i wynebu newidiadau demograffig sylweddol o fewn hinsawdd ariannol ansicr. Canfu AGGCC dystiolaeth bwerus fod y Cyngor wedi mabwysiadu dull gweithredu strategol er mwyn ymateb i'r heriau hyn. Mae'r Cyngor yn darparu arweinyddiaeth gadarn mewn perthynas â hyrwyddo annibyniaeth. Mae cyfarfodydd herio gwasanaethau blynyddol a threfniadau llywodraethu corfforaethol a gynhelir drwy gydol y flwyddyn yn adlewyrchu diwylliant yn y Cyngor o graffu'n effeithiol ar berfformiad gofal cymdeithasol ym maes gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion.

2 Cyhoeddwyd **Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol** yn 2012 gan Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Nod y fframwaith yw sicrhau bod sefydliadau yn cydnabod bod iaith yn rhan annatod o ofal ac y cynigir gwasanaethau yn Gymraeg i'r bobl hynny sydd eu hangen.

## Tudalen 70



- 20 Mae'r Cyngor wedi cwblhau newidiadau strwythurol mawr i'r broses o reoli gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion a gwasanaethau plant. Mae dull gweithredu'r Cyngor yn cynnwys adolygu gwasanaethau sy'n bodoli eisoes; cyflwyno modelau arfer arloesol; datblygu partneriaethau integredig; ac ystyried y potensial ar gyfer comisiynu rhai gwasanaethau ar sail ranbarthol. Wrth reoli ei ostyngiadau cyllidebol a newid ei ddull o ymdrin â gofal cymdeithasol rheng flaen, mae'r Cyngor wedi dewis lleihau nifer y gweithwyr cymdeithasol cymwys a gyflogir ym maes gwasanaethau oedolion gan benodi ymarferwyr gofal cymdeithasol yn eu lle. O gymharu â 2013-14 gwnaeth nifer y gweithwyr cymdeithasol leihau 19 y cant yn ystod y flwyddyn (naw swydd) a chydbwyswyd hyn drwy gyflwyno 24.8 o swyddi ymarferwyr gofal cymdeithasol cyfwerth ag amser llawn (gan gynnwys chwe swyddog adolygu). Mae darlun gwahanol ym maes gwasanaethau gofal cymdeithasol plant lle gwelwyd cynnydd yn nifer y gweithwyr cymdeithasol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol o 21.47 y cant (saith swydd). Er mwyn asesu effaith y newidiadau hyn ar bobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion, bydd angen i'r cyngor fabwysiadu dull trylwyr o sicrhau ansawdd. Yn 2014-15, dechreuodd y Cyngor raglen ymgynghori fanwl ar ddyfodol ei dri chartref preswyl i bobl hŷn sy'n darparu llety ar hyn o bryd i 50 o bobl ac sy'n cyflogi 100 o aelodau staff. Ceisiodd gwasanaethau oedolion, a ddaeth yn un o swyddogaethau'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol newydd, wella ei ddull o gomisiynu yn ystod y flwyddyn.
- 21 Daeth AGGCC i'r casgliad bod y ddarpariaeth o ofal cymdeithasol i oedolion yn y Sir wedi gwella'n gyffredinol gyda mentrau newydd yn hyrwyddo annibyniaeth yn parhau. Mae pwyslais y Cyngor ar sicrhau y gall mwy o bobl 65 oed a throsodd barhau i fod yn annibynnol. Mae cyflwyno Un Pwynt Mynediad yn dangos model effeithiol o waith partneriaeth integredig ym maes gofal cymdeithasol ac iechyd, gan ddarparu asesiad a chymorth i bobl y mae risg y bydd eu hiechyd yn gwaethygu. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y gwasanaeth wedi'i staffio'n llawn gan gynnwys staff o'r trydydd sector ac roedd yn cynnig gwasanaeth dwyieithog.
- 22 Mae'r Cyngor yn darparu cyfeiriad ac arweinyddiaeth gadarn wrth gynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar sydd ar gael i bobl hŷn. Mae Cynllun Llesiant Sir Ddinbych yn dangos cyfeiriad strategol y Cyngor wrth geisio galluogi pobl i ddod yn fwy gwydn ac annibynnol. Canfu AGGCC enghreifftiau eraill o fentrau newydd fel prosiect 'Fy Mywyd i, Fy Ffordd i' sy'n canolbwyntio ar adnoddau lleol er mwyn i bobl chwilio am gyngor a gwybodaeth a chynnal gwydnwch ac annibyniaeth. Gwnaeth y Cyngor hefyd gychwyn prosiect â'r nod o asesu ac ymyrryd mewn achosion lle mae pobl hŷn yn profi unigrwydd. Cymerodd y Cyngor ran mewn rhaglen beilot genedlaethol i ddatblygu cymunedau cymunedol, gan ei gwneud yn hawdd i'r boblogaeth leol gael gafael ar gyngor a gwybodaeth. Agorodd y gymuned gymunedol gyntaf o'r fath a oedd yn gweithredu 'sgyrsiau dan arweiniad y gymuned' yng Nghorwen.

- 23 O ran darparu gofal cartref, bu ffocws ar symud tuag at ddull yn seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer defnyddwyr y gwasanaethau hyn, er nad yw gwaith i werthuso ansawdd yr holl ddarparwyr a'r canlyniadau i wasanaethau wedi ei gynnal eto. Nod y rhaglen beilot a gynhelir gan y Cyngor i gymhwyso'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yw sicrhau bod yr unigolyn wrth wraidd ymarfer gwaith cymdeithasol. Bydd hyn felly yn galw am ddull gweithredu mwy deallus a phwrpasol o gomisiynu, a bydd angen mwy o eglurder yn null y Cyngor o gomisiynu.
- 24 Fodd bynnag, canfu AGGCC nad oedd y Cyngor yn monitro ansawdd llawer o asiantaethau gofal cartref yn ffurfiol yn ystod y flwyddyn drwy gynnal ymweliadau â phob darparwr. Cydnabu'r Cyngor y bydd angen monitro pob darparwr yn effeithiol yn ystod 2015-16. Yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu ag AGGCC, nododd y Cyngor fod 70 y cant o'r holl alwadau 15 munud i bobl yn eu cartrefi eu hunain yn 'alwadau gwirio'. Dylai monitro ansawdd gynnwys cyfweiliadau wyneb yn wyneb yn ogystal â'r dulliau presennol a ddefnyddir, i wella cyfleoedd i wrando ar safbwyntiau pobl sy'n derbyn pob math o wasanaethau gofal cartref a'u gwerthuso. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y cymorth a ddarperir yn diwallu eu hanghenion ac yn llywio gwaith comisiynu'r Cyngor yn y dyfodol.
- 25 Dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer gynyddol o bobl ag anableddau dysgu ac anghenion cymhleth yn aml o'r tu allan i'r sir a hyd yn oed y tu allan i Gymru wedi cael eu lleoli gyda darparwyr annibynnol (dros 96 y cant) yn Sir Ddinbych ond canfu AGGCC fod nifer sylweddol o bobl yn y gwasanaethau hyn yn annhebygol o fod yn hysbys i'r Cyngor ac y bydd angen iddynt efallai, ar ryw adeg, fanteisio ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sylfaenol, a manteisio hefyd ar ddiogelwch y prosesau diogelu a weithredir gan y Cyngor. Daeth AGGCC i'r casgliad bod angen i'r Cyngor (a phartneriaid) wneud mwy o waith i asesu a rhagweld angen ac adnoddau yn y dyfodol yn hyn o beth, ac ystyried effaith bosibl unrhyw newid o'r cymorth dwys i leoliadau cymunedol yn y sir.
- 26 Daeth AGGCC i'r casgliad, er y cynnydd yn y capasiti i wella prosesau diogelu oedolion agored i niwed, nid yw perfformiad mewn perthynas ag Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (PoVA) wedi gwneud y cynnydd a ragwelwyd, ac mae perfformiad yn parhau i beri pryder ac mae hyn yn risg barhaus i'r Cyngor. Ceisiodd y Cyngor atgyfnerthu capasiti drwy ymestyn rôl y rheolwyr arweiniol dynodedig. Sefydlwyd cymorth gweinyddol dynodedig hefyd tuag at ddiwedd y flwyddyn, darparwyd hyfforddiant i staff, a chynhaliwyd cyfarfodydd misol i adolygu cynnydd a rhannu ymarfer. Er gwaethaf y datblygiadau hyn, erbyn diwedd 2014-15 roedd yr un pryderon a nodwyd yn adroddiad gwerthuso perfformiad AGGCC y llynedd yn parhau, gan gynnwys amseroldeb a diffyg cysondeb yn y broses ddiogelu. Arsylwodd AGGCC nad oedd asiantaethau perthnasol bod amser yn ymgysylltu, yn enwedig mewn trafodaethau strategol ar gam cynnar, ac un thema a oedd yn codi dro ar ôl tro oedd diffyg hyder y rheolwyr arweiniol dynodedig, a oedd yn awgrymu bod angen cymorth a hyfforddiant pellach arnynt. Mae angen eglurder hefyd ynghylch trohwy'r Cyngor ar gyfer derbyn neu wrthod atgyfeiriadau PoVA. Ers cyhoeddi'r Adolygiad Blynyddol ym mis Hydref 2015, mae'r Cyngor wedi cymryd nifer o gamau i fynd i'r afael â phryderon AGGCC, gan gynnwys gweithredu prosesau casglu a gwerthuso data newydd yn ymwneud â phob cam yn y broses PoVA a sicrhau bod gan bersonél Un Pwynt Mynediad y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud atgyfeiriadau mewn ffordd amserol i'r tîm PoVA. Bydd AGGCC hefyd yn cynnal adolygiad dilynol ar drefniadau PoVA yn ystod 2016.

## Tudalen 72



- 27 Mae gwaith partneriaeth yn parhau i fod yn gryf yn Sir Ddinbych ac, fel y nodwyd y llynedd, mae wedi galluogi'r Cyngor i ddatblygu a darparu gwasanaethau wedi'u hailstrwythuro ac mae hyn wedi gwella ansawdd y gofal a ddarperir yn y sir. Cyfarfu uwch swyddogion o gynghorau Sir Ddinbych a Chonwy drwy gydol y flwyddyn er mwyn ceisio cyfleoedd i wneud gwaith partneriaeth ar y cyd ym maes gofal cymdeithasol. Noda AGGCC fod cydberthnasau ag asiantaethau partner yn dda ar lefel unigol ac ar lefel sefydliad, er gwaethaf rhai heriau wrth ymgysylltu'n effeithiol ar lefel strategol, ac felly dylai fod yn fanteisiol, o ran yr gwaith cynllunio strategol a gwneud penderfyniadau ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y flwyddyn i ddod, pe bai Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych yn cael ei benodi'n aelod cyswllt o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- 28 Nododd AGGCC gynnydd da iawn wrth ddarparu gwasanaethau plant a chanlyniadau cadarn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'r Cyngor wedi rhoi dulliau gweithredu ar waith â'r nod o wella perfformiad gwael yn y gorffennol mewn perthynas â chynlluniau iechyd, deintyddol ac addysg bersonol i blant sy'n derbyn gofal. Tuag at ddiwedd y flwyddyn, roedd newid yn dechrau cael effaith ar archwiliadau iechyd a deintyddol. Fodd bynnag, mae'r ddau faes hyn ar eu hôl hi o gymharu â chyfartaledd Cymru. Mewn perthynas ag archwiliadau iechyd bu cynnydd o 38.4 y cant i 73.5 y cant; a gwelodd archwiliadau iechyd ychydig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol i 59.8 y cant. Gwelodd y Cyngor ei berfformiad yn sylweddol gan sicrhau bod gan bob plentyn sy'n derbyn gofal gynllun addysg bersonol ac ar 100 y cant, mae hyn gryn dipyn uwchlaw cyfartaledd Cymru.
- 29 Canfu arolygiad AGGCC yn 2014-15 o Wasanaeth Maethu Sir Ddinbych fod grŵp sefydlog o ofalwyr maeth yn y sir a barnwyd bod morâl ymhlith gofalwyr maeth yn dda. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda chynghorau eraill yn y Gogledd i sefydlu dull rhanbarthol o recriwtio gofalwyr maeth.
- 30 Gwelodd canlyniadau i bobl sy'n gadael gofal. Drwy gynnwys y tîm 14+ a'r fforwm rhianta corfforaethol, mae gwaith ymgysylltu cadarnhaol yn cael ei wneud a chafwyd rhywfaint o lwyddiant o ganlyniad i wasanaethau amrywiol y Cyngor wrth ddarparu opsiynau i'w bobl iau sy'n derbyn gofal, gan gynnwys cyfleoedd am gyflogaeth a phrentisiaethau. Gwnaed cynnydd mawr o ran y sgôr pwyntiau cymwysterau allanol a gyflawnwyd gan y garfan fach (pedwar) o blant 16 oed sy'n derbyn gofal sef 438.50 o bwyntiau, gan adlewyrchu cynnydd o 168 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a hon oedd y sgôr uchaf yn y Gogledd ac roedd yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru. Dangosir rôl y Cyngor fel y 'rhiant corfforaethol' ar gyfer plant a phobl ifanc drwy'r Fforwm Rhianta Corfforaethol, lle mae uwch reolwyr ac aelodau etholedig yn craffu ar ganlyniadau i bobl ifanc ac yn herio perfformiad. Ychwanegir at hyn drwy sefydlu trefniadau gwell ar gyfer sicrhau ansawdd drwy ymgysylltu'n well â phobl ifanc a gofyn am eu barn.
- 31 Yn ystod 2015-16, cynhaliodd AGGCC arolygiad o Wasanaethau Maethu mewnol Sir Ddinbych. Mae canfyddiadau arolygiadau o awdurdodau lleol unigol ac adroddiad trosolwg cenedlaethol AGGCC ar gael ar [wefan AGGCC](#).

- 32 Fel rhan o waith Cynaliadwyedd Gwasanaethau Cymdeithasol Swyddfa Archwilio Cymru ar draws y chwe Chyngor yn y Gogledd, gwnaethom lunio dogfen i'r Cyngor a oedd yn cyflwyno'r canlynol:
- y galw yn y dyfodol am wasanaethau cymdeithasol yn Sir Ddinbych drwy feincnodi amcanestyniadau o'r boblogaeth ar gyfer plant a phobl hŷn; a
  - chyfres o ddadansoddiadau ar ffurf graff a oedd yn cyfuno data ariannol a data perfformiad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn Sir Ddinbych dros sawl blwyddyn ac a oedd hefyd yn gosod y Cyngor yng nghyd-destun y 21 cyngor arall yng Nghymru.
- 33 Nid oedd unrhyw argymhellion na chasgliadau o'r gwaith hwn gan ein bod wedi rhoi pecyn data i bob cyngor a oedd yn dangos y wybodaeth o safbwynt gwerth am arian a hwyluso gweithdy ar gyfer y Gogledd i gyd i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ac uwch reolwyr allweddol. Cawsom adborth cadarnhaol ar yr allbwn ac rydym yn aros i weld sut y bydd y Cyngor yn defnyddio'r dull gweithredu hwn fel rhan o'i brosesau herio mewnol.

### **Mae'r Cyngor yn parhau i lunio gwerthusiadau cytbwys a hyddysg o'i berfformiad ac yn cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009**

- 34 Mae'r Cyngor, fel mewn blynyddoedd blaenorol, wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur a daeth Tystysgrif Asesiad Gwella yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Hydref 2015 i'r casgliad bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur.
- 35 Mae trefniadau Herio Gwasanaeth y Cyngor wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn ac yn parhau i ddarparu datganiadau sefyllfa cynhwysfawr a manwl i Aelodau etholedig a rheolwyr gan ddefnyddio'r data perfformiad sydd ar gael a chynnydd prosiectau mawr. Fodd bynnag, o ran pwyllgorau craffu'r Cyngor, mae cofnod presenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd herio gwasanaethau wedi bod yn amrywiol yn ystod 2015. Yn aml, yr unig her yw'r un a ddaw oddi wrth uwch aelodau o staff a rhai Aelodau etholedig. Fel y nodwyd gennym yn Adroddiad Gwella Blynyddol y llynedd, mae'r drefn o herio gwasanaethau yn rhan bwysig o broses hunanwerthuso'r Cyngor, gan alluogi uwch reolwyr ac Aelodau etholedig i ddeall yn well pa mor dda y mae pob gwasanaeth yn perfformio yn erbyn targedau ac yn y cyd-destun cenedlaethol, ac i nodi'r hyn sydd angen ei wneud mewn meysydd nad ydynt yn perfformio cystal. Er mwyn i drefniadau Herio Gwasanaethau'r Cyngor barhau i gyflawni'r rôl bwysig hon mae angen i lefel presenoldeb Aelodau ddychwelyd i'w lefel flaenorol.
- 36 Mae'n ofynnol i'r Cyngor hefyd baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus o ran y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau. Daeth Tystysgrif Cynllun Gwella yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Mai 2015 i'r casgliad bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur.

## Mae dangosyddion cenedlaethol a safonau perfformio'r Cyngor ei hun yn parhau i roi darlun cywir o berfformiad

- 37 Gwaethygodd perfformiad y Cyngor yn 2014-15 fymryn bach, gydag 14 o'r 25 o'r dangosyddion perfformiad statudol o fewn y chwarter uchaf. Fel yn 2013-14, dim ond pedwar o'r 25 o fesurau statudol ar gyfer Cymru gyfan oedd yn y chwarter isaf a pharhaodd y Cyngor i gyflawni gwelliannau ar draws sawl un o'i feysydd gwasanaeth, megis lleihau gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi hyd yn oed yn fwy. Mae'r Cyngor wedi parhau i wrthod proses o bennu targedau sy'n seiliedig ar welliant graddol o gymharu â pherfformiad y flwyddyn flaenorol o blaid proses sy'n seiliedig ar gyflawni'r 'trothwy rhagoriaeth'. Mae trothwyon rhagoriaeth fel arfer yn seiliedig ar sicrhau bod perfformiad y Cyngor ymhlith y chwe chyngor sy'n perfformio orau yng Nghymru.
- 38 Daeth ein tri Adroddiad Gwella Blynyddol diweddaraf i'r casgliad bod tîm polisi canolog y Cyngor yn parhau i oruchwylio, cydgysylltu, a rheoli perfformiad yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi gallu parhau i weithredu system rheoli perfformiad gyson a ddeallir yn glir. Mae hyn yn wir o hyd. Atgyfnerthwyd ansawdd y gwaith a gynhyrchwyd gan y tîm polisi canolog ymhellach yn ystod 2015 drwy gyflwyno System Rheoli Perfformiad newydd.

## Gwnaed cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r tangyflawni blaenorol a gofnodwyd wrth ddarparu tai fforddiadwy a datblygu strategaeth tai Cyngor newydd

- 39 Mae'r Cyngor wedi cymryd camau cadarn yn 2014-15 i geisio sicrhau cyflenwad digonol o dai fforddiadwy. Tan eleni, roedd y Cyngor wedi methu'n gyson â chyflawni ei dargedau ers 2011 a'i berfformiad ef oedd yr un gwaethaf yng Nghymru yn 2013-14. Yn 2013-14, o blith y 2,416 o gartrefi fforddiadwy a adeiladwyd yng Nghymru, dim ond 16 ohonynt a gwblhawyd yn Sir Ddinbych. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo wella ei berfformiad ac ad-drefnwyd y gwasanaeth tai yn ddiweddar gyda Phennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, Asedau a Thai, yn cymryd cyfrifoldeb am bob agwedd ar ddarparu tai fforddiadwy yn Sir Ddinbych. Yn 2014-15, cwblhawyd cyfanswm o 74 o dai fforddiadwy yn Sir Ddinbych, er nad yw'n debygol o hyd y caiff y targed cynllun corfforaethol o 570 o gartrefi fforddiadwy newydd i'w cwblhau rhwng 2012 a 2017 ei gyflawni.
- 40 Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'r Strategaeth Tai bresennol yn nodi'r rolau na'r cyfrifoldebau am gyrraedd y targed cartrefi fforddiadwy yn ddigon clir ac mae grŵp Gorchwyl a Gorffen o aelodau etholedig a swyddogion wedi bod yn datblygu strategaeth tai fforddiadwy newydd. Cymeradwywyd y strategaeth tai newydd gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2015 ac mae cynllun gweithredu manwl yn nodi cyfres o fesurau a ddylai, os caiff pob un ohonynt eu rhoi ar waith yn llwyddiannus, sicrhau cynnydd sylweddol o ran cynyddu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy yn Sir Ddinbych dros y pum mlynedd nesaf.

- 41 Fel y nodwyd yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, mae Blaenoriaeth Gwella'r Cyngor o ran tai yn ehangach na darparu tai fforddiadwy yn unig. Cymerodd y Cyngor gamau effeithiol i atal digartrefedd yn 2014-15 ac, fel yn y flwyddyn flaenorol, roedd yn y chwarter uchaf o ran perfformiad yng Nghymru o hyd. Roedd nifer y diwrnodau a gymerwyd i ddarparu grantiau cyfleusterau i'r anabl hefyd yn isel ac yn cynrychioli perfformiad chwarter uchaf ymhlith cyngorau yng Nghymru.

### **Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu modelau amgen o ddarparu gwasanaethau ac ond newydd ddechrau datblygu fframwaith strategol priodol a trefniadau monitro a chraffu ar berfformiad**

- 42 Gyda'r posibilrwydd o doriadau ariannol parhaus, mae mwy o gynghorau yn ystyried y posibilrwydd o wneud newidiadau sylweddol i'r dulliau o ddarparu gwasanaethau er mwyn cyflawni mwy o ddiogelwch ariannol ac er mwyn diogelu gwasanaethau. Mae'n bwysig bod cynghorau yn gwneud y penderfyniadau hyn gydag ystod gyfan o wybodaeth yn ymwneud ag opsiynau darparu gwasanaethau a bod cryfderau a gwendidau pob opsiwn yn cael eu trafod yn eu cyd-destun. Mae angen i'r drafodaeth hon gael ei chynnal ar lefel swyddogion ac Aelodau ynghyd â dull ymgynghori cadarn â'r cyhoedd.
- 43 Gellir cyflwyno modelau amgen o ddarparu gwasanaethau ar sawl ffurf, a gall gwerthoedd penodol cyngor bennu pa rai a ddewisir. Er enghraifft, gallai dull 'cyngor comisiynu' olygu sefydlu amrywiaeth o gontractau gyda'r sector preifat ar gyfer darparu gwasanaethau yn yr hirdymor. Ceir enghraifft hefyd o'r rhwydwaith o 'gynghorau cydweithredol' sy'n cynnal cyfres o brosiectau i ystyried ac ymgorffori ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau mewn ymarfer a gweithio mewn partneriaeth â chymunedau.
- 44 Mae pob un o'r modelau hyn yn dwyn risgiau cysylltiedig sydd angen eu nodi pan gaiff opsiynau eu hystyried a rhaid rhoi trefniadau ar waith i'w rheoli wrth iddynt gael eu datblygu a'u rhoi ar waith. O gofio'r ystod eang o opsiynau posibl, byddai'n fuddiol i'r Cyngor gadarnhau ei ddewisiadau ar gyfer gwasanaethau penodol cyn dechrau ar waith ymchwil cychwynnol - yn syml, gallai hyn fod yn ddatganiad o natur y trefniadau na fyddai yn eu hystyried.
- 45 Mae rhesymau a ffactorau gwahanol wedi cyfrannu at ystyried ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r prosiect SARTH na chafodd ei roi ar waith eto<sup>3</sup> gyda chynghorau cyfagos a Chymdeithasau Tai Lleol yn gwithio am newid i system ddyrannu tai cymdeithasol mwy modern ac effeithiol, ac mae pwysau unedau gofal preswyl o bobl sy'n heneiddio yn golygu bod y Cyngor yn edrych ar gynlluniau tai gofal ychwanegol a ddarperir gan ddarparwyr amgen.

3 Prosiect partneriaeth yw SARTH (Un Llwybr Mynediad at Dai) rhwng pob landlord cymdeithasol mawr yn y Gogledd-ddwyrain, yn cwmpasu ardaloedd awdurdodau lleol Cyngor Bwrdeistref Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint. Nod cyffredinol SARTH yw darparu llwybr mynediad cyffredin at ystod o opsiynau tai fforddiadwy sy'n dryloyw, cyfreithlon, effeithlon a hygyrch i bob rhan o'r gymuned. Drwy fframwaith dyrannu cyffredin bydd partneriaid yn rhannu un gofrestr ac felly dim ond un cais y bydd angen i ymgeisydd ei wneud i gael mynediad at y system gyfan. Bydd pob partner ag eiddo mewn ardal a ddewisir gan ymgeisydd yn ymwbyddol o'r cais ac yn gallu rhoi'r flaenoriaeth briodol i'r ymgeisydd yn y broses ddyrannu.

- 46 Mae'r Cyngor eisoes wedi datblygu a dechrau sefydlu nifer o ffurfiau amgen ar ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau partneriaeth â'r sector preifat a gwasanaethau a rennir â chynghorau lleol eraill a'r trydydd sector, fel cymdeithasau tai lleol. Er enghraifft, ym mis Ebrill 2015 aeth y Cyngor ati i drosglwyddo staff Refeniw a Budd-daliadau i bartneriaeth newydd gyda'r cwmni preifat CIVICA. Mae'r Cyngor yn datblygu modelau darparu gwasanaethau diwygiedig fesul gwasanaeth, lle y gellir sefydlu achosion busnes, yn hytrach na bod yn rhan o adolygiad systematig o opsiynau ar gyfer dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau.
- 47 Fodd bynnag, mae rhai gwasanaethau yn Sir Ddinbych, fel Gwasanaethau Hamdden, yn dangos eu bod, ar lefel gwasanaeth, eisoes yn cynnal adolygiadau systematig cadarn o opsiynau ar gyfer dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau. Yn ein Hadroddiad Cenedlaethol ar Wasanaethau Hamdden<sup>4</sup> gwnaethom nodi sut yr aeth y Cyngor ati, fel rhan o'i nod strategol 'y bydd Sir Ddinbych erbyn 2020 yn enwog am gyfleoedd hamdden hygyrch, o ansawdd uchel sy'n denu lefelau uchel o gyfranogiad ac sy'n gwella lles ei drigolion a'i ymwelwyr', i gynnal 14 o weithdai i randdeiliaid a chwblhau dadansoddiad cost a budd manwl, gan gynnwys cymharu'r farchnad yn lleol. Mae hyn wedi rhoi gwybodaeth fanwl i'r Cyngor am berfformiad a boddhad cwsmeriaid ynghylch pob un o'i gyfleusterau hamdden ac wedi caniatáu iddo ddatblygu cynlluniau gweithredol manwl ar gyfer cyfleusterau unigol i gyflawni ei nod o sicrhau bod gwasanaethau'n hunan-ariannu ac yn ganolog i wella iechyd trigolion yn Sir Ddinbych.
- 48 Tan fis Rhagfyr 2015, nid oedd gan y Cyngor ddulliau corfforaethol effeithiol ar waith i fonitro trefniadau presennol ar gyfer dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau ond mae bellach wedi cytuno ar fframwaith corfforaethol ar gyfer darparwyr gwasanaethau amgen. Mae'r fframwaith yn nodi'n glir y gofynion ar gyfer sicrhau bod canllawiau perthnasol ar waith, y trefniadau ar gyfer ystyried a gweithredu newidiadau, egluro rolau ar gyfer y rhai dan sylw, y trefniadau monitro a llywodraethu, yn ogystal â'r elfennau cyfreithiol angenrheidiol a'r isafswm lefelau monitro sy'n ofynnol yn dibynnu ar werth y gwasanaethau a ddarperir.
- 49 Nid yw'r fframwaith monitro newydd ar gyfer dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau ar waith yn llawn eto ac mae trefniadau craffu cyhoeddus cyfredol yn wan. Er enghraifft, nid yw'r bartneriaeth perfformiad â CIVICA ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau, er ei bod yn destun adolygiad misol gan Fwrdd CIVICA a'r Cyngor ar y cyd, sef proses flynyddol o herio gwasanaethau, ac adroddiad i grŵp gorchwyl a gorffen, wedi elwa eto ar unrhyw waith craffu cyhoeddus ar berfformiad gan Aelodau drwy naill ai ei bwyllgorau craffu neu'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i atgyfnerthu ei drefniadau craffu a monitro cyhoeddus ac mae bellach yn gweithredu'r fframwaith monitro newydd ar gyfer darparwyr gwasanaethau amgen.

4 'Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden', Rhagfyr 2015

## Gwerthusiad Comisiynydd y Gymraeg o berfformiad Sir Ddinbych

- 50 Crëwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau i rym drwy is-ddeddfwriaeth ar 31 Mawrth 2015. Bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd y pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- 51 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor arnynt. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen.
- 52 Nododd y Comisiynydd feysydd i'w gwella yn ei adroddiadau arolygu a'r llythyrau a gyhoeddodd i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain ar gael ar [wefan y Comisiynydd](#).

# Y defnydd o adnoddau

## Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol priodol ond mae angen iddo atgyfnerthu ei ddull o gynhyrchu incwm

- 53 Ar 27 Tachwedd 2015, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol Lythyr Archwilio Blynnyddol i'r Cyngor. Mae'r llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamed ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae'r Llythyr Archwilio Blynnyddol ar gael yn **Atodiad 2** o'r adroddiad hwn.

## Mae cynlluniau a threfniadau'r Cyngor ar gyfer cyflawni arbedion yn y dyfodol yn addas at y diben ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol

- 54 Mae systemau rheoli ariannol da yn hanfodol er mwyn gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon. Mae systemau rheoli ariannol da:
- yn helpu awdurdodau i wneud y penderfyniadau cywir ar gyfer y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor;
  - yn helpu awdurdodau i ddarparu gwasanaethau i gyflawni rhwymedigaethau statudol a diwallu anghenion cymunedau lleol;
  - yn hanfodol er mwyn sicrhau systemau llywodraethu corfforaethol da;
  - yn ymwneud cymaint â rheoli perfformiad a chyflawni amcanion strategol ag â rheoli arian;
  - yn sail i ansawdd gwasanaethau a gwella gwasanaethau;
  - yn sail i atebolrwydd i randdeiliaid am warchod a defnyddio adnoddau; ac
  - yn ddisgyblaeth reoli allweddol.
- 55 Sicrheir cydnherthedd ariannol pan fydd gan awdurdod systemau a phrosesau cadarn i reoli ei risgiau a'i gyfleoedd ariannol yn effeithiol a sicrhau sefyllfa ariannol sefydlog.
- 56 Mae gan y Cyngor fframwaith corfforaethol effeithiol ar gyfer cynllunio ariannol yn y Cyngor. Mae ei weledigaeth a'i nodau cyffredinol wedi eu cyfleu'n glir drwy ei Gynllun Corfforaethol 2012-17 sy'n manylu ar y saith amcan gwella y mae'r Cyngor yn gobeithio eu cyflawni ar gyfer ei ddinasyddion. Mae gan y Cyngor ddull cadarn ar waith o sicrhau bod amcanion gwella yn gysylltiedig â chynlluniau gwasanaethau a'u bod wedi'u diogelu ganddynt, a bod cyllidebau a chynlluniau ariannol wedi'u pennu yn unol â chyflawni'r amcanion hyn. Mesurir cynnydd drwy fframwaith monitro perfformiad y Cyngor a chyflwynir adroddiad arno bob blwyddyn drwy Ddogfen Gyflawni Flynyddol y Cyngor.



- 57 Mae nifer o bolisiau sy'n cefnogi trefniadau cynllunio ariannol y Cyngor, a nodir cyfrifoldebau o ran pennu'r gyllideb, ei monitro ac adrodd arni. Mae gan y Cyngor Gynllun Ariannol Tymor Canolig (y Cynllun) sydd wrthi'n cael ei ddiweddarau. Mae fersiwn 2014 yn nodi sut yr ymdrinnir â'r bwlch mewn arbedion sy'n weddill yn 2015-16 a thu hwnt.
- 58 Newidiodd dull y Cyngor o bennu ei gyllideb refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16. Er bod y Cyngor yn y gorffennol wedi mynd ati i leihau costau'n gynyddrannol, ar gyfer 2015-16, cafodd gwasanaethau eu hadolygu o dan y rhaglen Rhyddid a Hyblygrwydd er mwyn cyflawni targed i arbed £18 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf. Mae'r broses gyllidebol hon yn canolbwyntio ar yr hyn y mae gwasanaeth yn ei wneud a faint mae'n ei gostio, ac yn ceisio dadansoddi p'un a yw'r gwasanaeth a ddarperir yn statudol, yn gyson â blaenoriaeth gorfforaethol neu'n ddewisol.

**Mae gan y Cyngor reolaethau effeithiol ar waith i sicrhau bod ei brosesau a'i reolaeth ariannol yn gadarn, ond mae angen iddo atgyfnerthu ei ddull o gynhyrchu incwm**

- 59 Mae cynlluniau arbedion ac arbedion effeithlonrwydd y Cyngor ar gyfer 2015-16 yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn debygol o gael eu cyflawni.
- 60 Roedd cynlluniau arbedion effeithlonrwydd wedi cael eu datblygu ar gyfer 2015-16 ym mhob un o adrannau'r Cyngor. Mae'r cynlluniau yn cynnwys disgrifiadau clir o ble y câi'r arbedion eu gwneud. Mae Cynllun Arbedion Sir Ddinbych yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol. Mae Cynllun Arbedion y Cyngor ar gyfer 2015-16 yn rhoi sylw priodol a pherthnasol i'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn y dyfodol. Roedd y tybiaethau a wnaed gan y Cyngor wrth nodi'r diffyg yn gynhwysfawr a rhesymol ac wedi'u hategu gan ddata cadarn.
- 61 Bob blwyddyn, mae'r Cyngor yn adolygu lefel ei gronfeydd wrth gefn a'i ddarpariaethau o ran cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a rhai cyffredinol, proses a ymgorfforwyd yn y prosesau pennu cyllideb a gweithdai aelodau. Mae anghysondeb rhwng y strategaeth ar gyfer cronfeydd wrth gefn fel y'i nodir yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig 2014-18 a'r dull o ymdrin â chronfeydd wrth gefn a fabwysiedir wrth bennu'r gyllideb ar gyfer 2015-16. Mae angen ymdrin â'r datgysylltiad hwn er mwyn sicrhau bod dull y Cyngor yn gyson a bod ei bolisiau a'i weithdrefnau allweddol yn cysoni'n effeithiol.
- 62 Nid oes gan y Cyngor bolisi ffurfiol ychwaith ar gynhyrchu/codi incwm, ac nid oes ganddo gofrestr o'r taliadau a bennir gan y priod adrannau. Er i'r broses o godi taliadau gael ei thrafod rywfaint wrth bennu'r gyllideb, nid yw'n gyson ym mhob gwasanaeth ac mae angen ei ffurfioli er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ddull darbodus ac ystyriol.

## Tudalen 80



**Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar gyfer adolygu a herio perfformiad ariannol a chaiff y rhai sy'n gyfrifol am reoli perfformiad ariannol eu dwyn i gyfrif**

- 63 Mae gan y Cyngor fframwaith cadarn ar gyfer adolygu a herio perfformiad ariannol. Mae system rhagweld, monitro ac adrodd newydd y Cyngor, 'Cynllunio Cydweithredol' yn effeithiol o ran sicrhau dull cyson o reoli'r gyllideb ar draws y Cyngor. Fel y nodwyd yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol diwethaf mae 'Cynllunio Cydweithredol' yn sicrhau dull mwy cyson o reoli'r gyllideb ar draws y Cyngor drwy goladu gwybodaeth gyllidebol ar system ar-lein a lleihau'r angen i ddefnyddio amrywiol daenlenni o fewn yr adrannau gwasanaeth gwahanol.
- 64 Mae'r Cabinet yn cael adroddiad misol ar y gyllideb. Mae'r adroddiad yn dangos yr alldro rhagamcanol ar gyfer y flwyddyn (yn hytrach na'r sefyllfa ar adeg benodol) o gymharu â'r gyllideb wreiddiol. Mae'r adroddiadau misol yn cynnwys manylion unrhyw amrywiad sylweddol mewn gwariant ynghyd â chymau cywirol.

# Llywodraethu

**Mae trefniadau craffu'r Cyngor yn ategu proses gwneud penderfyniadau gadarn ac mae prosesau corfforaethol digonol ganddo i ymateb i adroddiadau ac argymhellion gan reoleiddwyr allanol**

**Mae trefniadau craffu'r Cyngor yn ategu proses gwneud penderfyniadau gadarn, ond mae presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd craffu wedi lleihau'n sylweddol**

- 65 Mae cydberthnasau rhwng cynghorwyr a swyddogion yn adeiladol ac fe'u hategir gan hyfforddiant, canllawiau a disgrifiadau rolau priodol. Mae cynghorwyr yn ymddwyn yn briodol ac yn gyffredinol yn ceisio bod yn adeiladol mewn cyfarfodydd pwyllgor, hyd yn oed pan fyddant yn anghytuno â'i gilydd. Prin iawn fu'r achosion o dorri rheolau Cod Ymddygiad yr Aelodau yn Sir Ddinbych dros y blynyddoedd diwethaf. Disgwylir i bob cynghorydd gael hyfforddiant yn y Cod Ymddygiad. Yn briodol ddigon, dim ond ar ôl cael hyfforddiant penodol y gall cynghorwyr gymryd rhan yn y Pwyllgor Trwyddedu a Chynllunio. Nod y Cyngor yw darparu hyfforddiant a datblygiad yn seiliedig ar anghenion ac mae cynghorwyr yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch yr hyfforddiant a gânt.
- 66 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu set briodol o ganllawiau, o fewn ei gyfansoddiad ac mewn manau eraill, yn nodi'r disgwyliadau ar gyfer rolau allweddol pwyllgorau craffu. Mae'n sicrhau bod hyn yn gyfredol ac mae wedi, er enghraifft, datblygu disgrifiad rôl ar gyfer y cadeirydd ac aelodau o'r pwyllgorau.
- 67 Mae'r Cabinet yn cyfarfod yn fisol a threfnir i bob un o'r tri Phwyllgor Craffu gyfarfod bob chwe wythnos. Mae gan bob pwyllgor flaenraglen waith wedi'i diffinio'n dda sy'n ystyried eitemau ar flaengynllun y Cabinet ac mae'n adolygu hwn ym mhob cyfarfod. Mae gan y Cyngor ffocws clir o ran pennu'r rhaglen waith sy'n ystyried y canlynol:
- blaenoriaethau corfforaethol a chyflawni'r Cynllun Corfforaethol;
  - arbedion cyllidebol a'u heffaith ar Sir Ddinbych a'i thrigolion; a
  - blaenoriaethau mawr eraill y gall y broses graffu ddylanwadu arnynt a sicrhau newid.

Mae proses werthuso strwythuredig ar waith sy'n galluogi pwyllgorau craffu i sicrhau bod eu gweithgareddau'n canolbwyntio ar faterion pwysig fel cynnydd a wneir ar brosiectau ac adroddiadau ar berfformiad y Cyngor.

- 68 Mae cyfran o waith pwyllgorau craffu yn golygu gwneud gwaith craffu cyn penderfynu lle mae pwyllgorau yn ystyried materion cyn iddynt gyrraedd y Cabinet er mwyn i benderfyniadau gael eu gwneud. Mae nifer o grwpiau gorchwyl a gorffen, fel grŵp gorchwyl a gorffen 'Torri'r Brethyn' sy'n ystyried arbedion effeithlonrwydd, yn ymgymryd â'r rôl hon. Mae defnyddio proses graffu cyn penderfynu yn helpu i sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn ystyried ystod eang o safbwyntiau gwleidyddol ac yn lleihau'r tebygolrwydd y byddai'r pwyllgor craffu yn 'galw i mewn' benderfyniadau'r Cabinet, gan gynnal llif busnes y Cyngor yn ddiraffferth.
- 69 Yn gyffredinol mae ansawdd y papurau a gyflwynir i'r pwyllgorau craffu yn dda. At hynny, mae cyfraniad helaeth cynghorwyr, er enghraifft, drwy'r rhan a chwaraeant mewn gweithdai ar y gyllideb, yn sicrhau'n gyffredinol bod yr argymhellion mewn papurau pwyllgorau yn debygol o gael lefel fawr o gefnogaeth.
- 70 Mae lefel yr her ac ansawdd y drafodaeth yng nghyfarfodydd y pwyllgorau craffu yn amrywio. Fodd bynnag, rydym wedi arsylwi ar nifer o gyfarfodydd a oedd yn cynnwys her gadarn a hyddysg i'r staff neu i aelodau'r Cabinet a oedd yn cyflwyno'r papurau.
- 71 Mae'r Cyngor wedi datblygu Cynllun Gweithredu Gwella Craffu, y caiff ei gynnydd ei fonitro'n rheolaidd. Serch hynny, mae rhai agweddau ar y trefniadau craffu, er eu bod wedi cael eu hatgyfnerthu, yn parhau i fod yn anghyson fel cyflwyno adroddiadau, sydd ar adegau yn cael eu cyflwyno gan yr aelod perthnasol o'r cabinet, ac ar adegau eraill gan y swyddog arweiniol (tra bod yr Aelod Cabinet yn bresennol). Mae hyn yn drysu llinellau atebolrwydd a chyfrifoldeb.
- 72 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn datblygu'n dda ac yn systematig wrth sicrhau ei hun bod argymhellion mewn adroddiadau Archwilio Mewnol wedi cael eu rhoi ar waith. Caiff yr aelodau perthnasol o'r Cabinet, yn hytrach na'r swyddogion, eu dwyn i gyfrif gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac mae'r cydbwysedd o gyfraniadau gan yr aelod o'r Cabinet yn briodol.
- 73 Mae'r lefel presenoldeb mewn cyfarfodydd craffu ac yn y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi lleihau ac mae'r Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon. Mae uwch swyddogion ac Aelodau etholedig y gwnaethom siarad â hwy yn gofidio am y lleihad hwn mewn presenoldeb ac mewn rhai cyfarfodydd a arsylwyd gennym dim ond digon i wneud cworwm oedd yno. Mae dadansoddi lefelau presenoldeb yn dangos bod y lleihad hwn yn y nifer sy'n cyfranogi wedi bod yn broblem gynyddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi ceisio cynnal rhai cyfarfodydd craffu ar adegau gwahanol o'r dydd ond ni wnaeth hyn wella lefelau presenoldeb. Mae'r rhesymau dros y lleihad hwn yn aneglur ond mae angen gwrthdroi'r duedd er mwyn cynnal y lefel ofynnol o sicrwydd ynghylch trefniadau craffu'r Cyngor.

## Mae gan y Cyngor brosesau corfforaethol digonol ar gyfer ymateb i adroddiadau ac argymhellion gan reoleiddwyr allanol

- 74 Mae gan y Cyngor brosesau corfforaethol digonol ar gyfer ymateb i adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, olrhain y broses o weithredu argymhellion a chyflwyno adroddiadau ar hyn yng nghyfarfodydd y Cyngor. Yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol yn 2015 cynigiwyd y dylai'r Cyngor adolygu ei arferion gwaith yn erbyn yr argymhellion ym mhym Adroddiad Cenedlaethol 2014-15 yr Archwilydd Cyffredinol ar Lywodraeth Leol a rhoi'r gwelliannau ar waith fel y bo angen.
- 75 Trafododd y Cyngor rai o'r adroddiadau unigol mewn pwyllgorau craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a lluniodd adolygiad cynhwysfawr a chynllun gweithredu ar gyfer pob adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor llawn ym mis Hydref 2015. Nid yw'r Cyngor wedi adrodd yn ôl eto i'r pwyllgor priodol ar gynnydd a wnaed gyda'r cynllun gweithredu.
- 76 Ers i'r Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf gael ei gyhoeddi mae pum Adroddiad Cenedlaethol arall gydag argymhellion a all fod yn berthnasol i'r Cyngor wedi cael eu cyhoeddi. Ceir rhestr o argymhellion mewn adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2015-16 yn [Atodiad 3](#).

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cyngorydd Hugh Evans - Arweinydd  
Dr. Mohammed Mehmet - Prif Weithredwr  
Cyngor Sir Ddinbych  
Neuadd y Sir  
Ffordd Wynnstay  
Rhuthun  
Sir Ddinbych  
LL15 1YN

27 Tachwedd 2015

Annwyl Gyngorydd Evans a Dr Mehmet

## Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Sir Ddinbych 2014-15

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

### Cydymffurfiodd Cyngor Sir Ddinbych â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau bod y broses o archwilio'r cyfrifon wedi ei chwblhau.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2015, rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn archwilio ddiarnod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae'r adroddiad hwn wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforethol yn yr adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 28 Medi 2015.

**Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau**

Mae ystyriaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon a hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynnyddol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau.

**Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2015.**

**Nid yw'r gwaith a wnaed hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2015-16 na systemau ariannol allweddol.**

Bydd adroddiad manylach ar waith ardystio grantiau yn dilyn yn 2016 unwaith y bydd rhaglen waith ardystio eleni wedi'i chwblhau.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2014-15 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynnyddol.

Yn gywir

**Derwyn Owen**  
**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

# Atodiad 3 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2015-16

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Ebrill 2015	Cydnherthedd ariannol cynghorau yng Nghymru	A1 Dylai cynghorau sicrhau bod eu cynllun corfforaethol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• wrth wraidd y broses o lywio cynlluniau gwasanaeth a strategaethau ategol eraill gan gynnwys y gweithlu, technoleg gwybodaeth a gwariant cyfalaf;</li> <li>• yn cynnal blaenolwg tair i bum mlynedd o leiaf a'i fod yn unol â'r cynllun ariannol tymor canolig a strategaethau ategol eraill; ac</li> <li>• dylai nodi'n glir rôl ddymunol y cyngor mewn pum mlynedd - y model ar gyfer darparu gwasanaethau â blaenoriaeth a'r seilwaith a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni blaenoriaethau yn y dyfodol o fewn y cyllid sydd ar gael.</li> </ul>
		A2 Dylai'r cynllun ariannol tymor canolig nodi'r prif risgiau ariannol a thybjaethau allweddol a dylai uwch swyddogion a chynghorwyr graffu arnynt a'u herio'n effeithiol cyn mabwysiadu'r cynllun.
		A3 Mae angen i gynghorau sicrhau bod diffygion ariannol yn cael eu rhagamcanu'n gywir a'u cysoni'n llawn â chynlluniau arbed manwl ar gyfer pob blwyddyn o oes y cynllun ariannol tymor canolig.
		A4 Dylai cynghorau adolygu digonolrwydd y trefniadau sicrwydd ariannol sy'n sail i gyflawni cynlluniau arbed blynyddol, gan gynnwys lefel y gwaith craffu a herio a gynigir gan gynghorwyr.
		A5 Dylai cynghorau sicrhau bod ganddynt strategaeth cronfeydd wrth gefn gynhwysfawr sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy cronedig fel rhan o'u Cynllun Ariannol Tymor Canolig.
		A6 Dylai cynghorau ddatblygu polisïau cwbl gorfforaethol ar gynhyrchu incwm gyda'r nod o gynyddu ffrydiau refeniw a lleihau pwysau ariannol.
		A7 Dylai cynghorau: <ul style="list-style-type: none"> <li>• atgyfnerthu trefniadau pennu a monitro cyllidebau er mwyn sicrhau cydnherthedd ariannol; a</li> <li>• adolygu cwmipas ac effeithiolrwydd eu systemau a'u rheolaethau ariannol mewnol ac allanol er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn rhoi rhybudd cynnar am wendidau mewn systemau allweddol.</li> </ul>
		A8 Rhaid i gynghorau adolygu eu timau cyllid a sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau a gallu i fodloni gofynion yn y dyfodol.
		A9 Mae angen i swyddogion cynghorau sicrhau bod gan gynghorwyr y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni gwaith llywodraethu a herio effeithiol drwy ymestyn cyfleoedd hyfforddi a llunio gwybodaeth reoli o ansawdd uchel.

## Tudalen 88



Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Mehefin 2015	<p><b>Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar</b></p>	<p>A1 Egluro natur a gweithrediad consortia. Nodwyd gennym fod ansicrwydd parhaus ynglŷn â rhai agweddau ar natur consortia rhanbarthol a'u cwmpas nawr ac yn y dyfodol (paragraffau 2.2 i 2.20). Felly, rydym yn argymhell y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai awdurdodau lleol egluro a yw gwasanaethau consortia yn cael eu darparu ar y cyd neu a ydynt yn wasanaethau a gomisiynwyd (mae gwasanaethau a ddarperir o dan drefniadau cydbwyllgor yn wasanaethau a ddarperir ar y cyd ac nid ydynt yn wasanaethau a gomisiynwyd.</li> </ul> <p>A2 Canolbwyntio ar ganlyniadau drwy waith cynllunio tymor canolig. Nodwyd gennym fod ffocws ar gamau gweithredu byrdymor ac ansicrwydd ynglŷn â dyfodol consortia yn rhwystro'r gwaith o ddatblygu consortia rhanbarthol effeithiol (paragraffau 2.33 i 2.36; 3.16 i 3.17). Felly, rydym yn argymhell y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gan na chaiff unrhyw raglen bosibl i ad-drefnu awdurdodau lleol ei rhoi ar waith yn llawn tan 2020, dylai Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol ddatblygu cynlluniau tair blynedd ar gyfer datblygu consortia rhanbarthol ymhellach, pennu eu cwmpas a'u cyllid, wedi'u cysylltu ag amcanion strategol priodol.</li> </ul> <p>A3 Datblygu cydberthnasau mwy cydweithredol ar gyfer y system gwella ysgolion. Cyfrannodd llawer o bartneriaid gwella ysgolion at y gwaith o ddatblygu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol ond nodwyd gennym nad oedd hyn wedi arwain at ddatblygu cydberthnasau digon cydweithredol (paragraffau 2.25 i 2.32). Felly, rydym yn argymhell y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai consortia rhanbarthol ddatblygu trefniadau gwell ar gyfer rhannu arfer a chefnogi effeithlonrwydd (er enghraifft, gallai un consortiwm arwain y gwaith o fynd i'r afael â mater neu gallai fod ganddo gyfrifoldeb gweithredol am ddatblygu polisi).</li> <li>Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gydnabod cyd-ddibyniaeth yr holl bartneriaid wrth gyflawni eu rolau gwella ysgolion a chytuno ar ddull o wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau sy'n ymwneud â gwella ysgolion ac ymgynghori yn eu cylch;</li> <li>datblygu cydberthnasau cydweithredol sy'n seiliedig ar atebolrwydd a rennir; ac</li> <li>chynnal adolygiadau system gyfan a chysoni'r ddealltwriaeth o gonsortia rhanbarthol a sefyllfa consortia rhanbarthol ym mhob un o strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru.</li> </ul> </li> </ul>

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Mehefin 2015	Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar	<p>A4 Datblygu arweinwyr effeithiol a denu'r dalent orau. Mae consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru oll wedi'i chael hi'n anodd recriwtio uwch arweinwyr ar gyfer addysg a nodwyd gennym nad oes fawr ddim wedi'i wneud i fynd i'r afael â hyn (paragraffau 2.37 i 2.40). Felly, rydym yn argymhell y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithredu i wneud rolau arwain ym maes addysg yn fwy deniadol er mwyn denu'r arweinwyr mwyaf talentog ar gyfer y system gwella ysgolion; a</li> <li>dylai awdurdodau lleol gydweithredu er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol uwch arweinwyr a sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad priodol ar waith ar gyfer uwch arweinwyr.</li> </ul>
		<p>A5 Gwella effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli consortia rhanbarthol. Er bod cynnydd yn parhau i gael ei wneud, nodwyd nad yw consortia rhanbarthol wedi datblygu trefniadau llywodraethu a rheoli ariannol cwbl effeithiol eto (paragraffau 3.2 i 3.36). Felly, rydym yn argymhell y dylai awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>gwneud gwell defnydd o hunanwerthusiadau o'u perfformiad a'u trefniadau llywodraethu i ategu gwaith cynllunio busnes a'u hadolygiadau blynyddol o drefniadau llywodraethu er mwyn llywio eu datganiadau llywodraethu blynyddol;</li> <li>gwella prosesau gwella perfformiad gan gynnwys gwella prosesau cynllunio busnes, defnyddio mesurau perfformiad clir a mesuradwy ac asesu gwerth am arian;</li> <li>sicrhau bod rheoli risg strategol yn rhan annatod o'u trefniadau rheoli a chyflwyno adroddiadau rheolaidd ar lefel y cydbwyllgor neu'r bwrdd;</li> <li>datblygu eu trefniadau rheoli ariannol er mwyn sicrhau bod gweithgarwch cyllidebu, monitro ariannol ac adrodd yn cwmpasu'r holl incwm a gwariant perthnasol, gan gynnwys arian grant a gaiff ei wario drwy awdurdodau lleol;</li> <li>datblygu trefniadau craffu ar y cyd y consortia yn gyffredinol yn ogystal â gwaith craffu perfformiad a wneir gan awdurdodau unigol, a all gynnwys sefydlu cydbwyllgor craffu neu waith cydgysylltiedig gan bwyllgorau craffu awdurdodau lleol;</li> <li>sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau a threfniadau consortia yn agored ac yn dryloyw;</li> <li>adnabod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a mynd i'r afael ag ef; a phan fo gan staff fwy nag un cyflogwr, dylai consortia rhanbarthol sicrhau bod llinellau atebolrwydd yn glir a bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r rolau a gyflawnir; ac</li> <li>datblygu strategaethau cyfathrebu cadarn ar gyfer ymgysylltu â phob rhanddeiliad allweddol.</li> </ul>

## Tudalen 90

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Gorffennaf 2015	<p><b>Adolygu Trefniadau Diogelu Corfforaethol mewn Cyngorau yng Nghymru</b></p>	<p>A1 Gwella arweinyddiaeth gorfforol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• penodi uwch swyddog arweiniol sy'n atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc ac sydd â chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;</li> <li>• penodi aelod diogelu arweiniol; ac</li> <li>• lledaenu gwybodaeth am y penodiadau hyn i bob aelod o staff a rhanddeiliad a'i diweddarau yn rheolaidd.</li> </ul> <p>A2 Sicrhau bod polisi cwbl gorfforaethol ar ddiogelu sy'n cwmpasu holl wasanaethau'r Cyngor er mwyn cynnig cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ym mhob rhan o'r Cyngor.</p> <p>A3 Atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer recriwtio staff a gwirfoddolwyr mewn modd diogel drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chydymffurfiaeth â pholisïau recriwtio'n ddiogel yn cwmpasu'r holl wasanaethau sy'n dod i gysylltiad â phlant;</li> <li>• creu system cydymffurfiaeth gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfiaeth o ran gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; ac</li> <li>• gofyn am arferion recriwtio'n ddiogel ymhlith partneriaid yn y trydydd sector ac ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y Cyngor a ategir gan contract neu gytundeb lefel gwasanaeth.</li> </ul> <p>A4 Sicrhau bod pob aelod perthnasol o staff a phob aelod a phartner perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau o ran diogelu drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod ei gwmpas yn cael ei ymestyn i gynnwys holl feysydd gwasanaeth perthnasol y Cyngor a'i fod yn cael ei gynnwys fel rhywbeth safonol mewn rhaglenni sefydlu;</li> <li>• llunio system gwbl gorfforaethol i nodi, olrhain a monitro cydymffurfiaeth o ran cael hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r Cyngor ac ymhlith aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; ac</li> <li>• mynnu bod staff perthnasol, mewn sefydliadau partner sydd wedi'u comisiynu i weithio i'r Cyngor drwy ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc, yn cael hyfforddiant diogelu.</li> </ul> <p>A5 Wrth ddiwygio'r canllawiau, dylai Llywodraeth Cymru egluro'r hyn y mae'n ei ddisgwyl gan awdurdodau lleol o ran rolau a chyfrifoldebau'r swyddog dynodedig o fewn gwasanaethau addysg a'r unigolyn a enwir ar lefel uwch reolwr sy'n gyfrifol am hyrwyddo diogelwch plant.</p>

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Gorffennaf 2015	Adolygu Trefniadau Diogelu Corfforaethol mewn Cyngorau yng Nghymru	A6 Gwella atebolrwydd am weithgarwch diogelu corfforaethol drwy gyflwyno adroddiadau rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd i'r pwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth am berfformiad ym mhob rhan o'r Cyngor sy'n cynnwys y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• meincnodi a chymariaethau ag eraill;</li> <li>• casgliadau adolygiadau archwilio/arolygu mewnol ac allanol;</li> <li>• data perfformiad sy'n seiliedig ar wasanaethau;</li> <li>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu a gwiriadau recriwtio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; ac</li> <li>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor.</li> </ul>
		A7 Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i brofi systemau a chynnal adolygiadau o gydymffurfiaeth o ran arferion diogelu'r Cyngor.
		A8 Sicrhau y caiff y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu plant eu hystyried ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaeth wrth ddatblygu cynlluniau rheoli risg a chytuno arnynt ym mhob rhan o'r Cyngor.
Hydref 2015	Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cyngorau'n Gwneud Digon?	A1 Gwella trefniadau llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol mewn perthynas â materion pobl hŷn drwy wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• penodi uwch swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am gydgysylltu ac arwain gwaith y Cyngor ar wasanaethau pobl hŷn.</li> <li>• ailalinio gwaith cydgysylltwyr y strategaeth pobl hŷn er mwyn helpu i ddatblygu a chyflawni cynlluniau ar gyfer gwasanaethau sy'n cyfrannu at annibyniaeth pobl hŷn;</li> <li>• penodi aelod yn hyrwyddwr gwasanaethau pobl hŷn; ac</li> <li>• lledaenu gwybodaeth am y penodiadau hyn i bob aelod o staff a rhanddeiliad a'i diweddarau yn rheolaidd.</li> </ul>
		A2 Gwella prosesau cynllunio strategol a chydgyssylltu gweithgarwch yn well ar gyfer gwasanaethau i bobl hŷn drwy wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n cwmpasu gwaith holl adrannau perthnasol y Cyngor a gwaith rhanddeiliaid allanol y tu allan i faes iechyd a gofal cymdeithasol; ac</li> <li>• gweithio gyda thrigolion a phartneriaid i ddatblygu cynlluniau ac wrth ddatblygu blaenoriaethau a chytuno arnynt.</li> </ul>
		A3 Ymgysylltu'n well a phobl hŷn a gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth ei lledaenu iddynt drwy sicrhau bod gwasanaethau cyngor a gwybodaeth wedi'u cyflunio'n briodol a'u bod yn diwallu anghenion y rhai sy'n eu cael.

## Tudalen 92

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Hydref 2015	<p><b>Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cyngorau'n Gwneud Digon?</b></p>	<p>A4 Sicrhau y caiff perfformiad yr ystod o wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol eu rheoli'n effeithiol drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu ar gyfer holl wasanaethau'r Cyngor;</li> <li>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y rhai y tu allan i faes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol; ac</li> <li>• nodi mesurau i farnu mewnbynnau, allbynnau ac effaith fel y gellir deall effaith toriadau cyllidebol a chefnogi gweithgarwch goruchwyllo a chraffu.</li> </ul> <p>A5 Sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• nodi sut y bydd newidiadau i wasanaethau neu doriadau mewn cyllidebau yn effeithio ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig;</li> <li>• mesur yr effaith bosibl a'r camau lliniaru a gymerir er mwyn lleihau'r effaith negyddol bosibl ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig;</li> <li>• nodi nifer y bobl y gallai'r newidiadau arfaethedig neu'r polisi newydd effeithio arnynt drwy nodi'r effaith ar y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig; ac</li> <li>• sicrhau bod gweithgarwch ategol megis arolygon, grwpiau ffocws ac ymgyrchoedd gwybodaeth yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi defnyddwyr gwasanaethau i ddeall yr effaith a gaiff newidiadau arfaethedig arnynt yn glir.</li> </ul> <p>A6 Gwella'r ffordd y rheolir y Gronfa Gofal Canolraddol a sicrhau ei bod yn cael mwy o effaith drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• pennu llinell sylfaen ar gyfer perfformiad ar ddechrau prosiectau fel y gellir barnu effaith y rhain dros amser;</li> <li>• cytuno ar fformat a chwmpas adroddiadau monitro fel y gellir gwerthuso prosiectau a ariennir ar sail gyfatebol yn erbyn meini prawf y gronfa, er mwyn barnu pa rai sy'n cael yr effaith gadarnhaol fwyaf a faint o gynlluniau sydd wedi'u prif ffrydio i gyllid craidd; ac</li> <li>• ymgysylltu'n well â phob partner er mwyn sicrhau y caiff cymaint o bartneriaid â phosibl eu hannog i gymryd rhan mewn mentrau a rhaglenni yn y dyfodol.</li> </ul>

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Rhagfyr 2015	<b>Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden</b>	<p>A1 Gwella gwaith cynllunio strategol ym maes gwasanaethau hamdden drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• pennu gweledigaeth gytûn y Cyngor ar gyfer gwasanaethau hamdden;</li> <li>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau hamdden;</li> <li>• canolbwyntio ar sefyllfa'r Cyngor o fewn darpariaeth chwaraeon a hamdden y gymuned ehangach yn yr ardal; ac</li> <li>• ystyried y potensial ar gyfer darparu gwasanaethau ar sail ranbarthol.</li> </ul> <p>A2 Cynnal arfarniad o opsiynau er mwyn nodi'r model cyflawni mwyaf priodol yn seiliedig ar weledigaeth gytûn a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gwasanaethau hamdden sy'n ystyried y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• argaeledd cyllid cyfalaf a chyllid refeniw yn ystod y tair i bum mlynedd nesaf;</li> <li>• opsiynau i wella ffocws masnachol gwasanaethau hamdden;</li> <li>• cyfleoedd i wella prosesau cynhyrchu incwm a lleihau 'cymhorthdal' y Cyngor;</li> <li>• dadansoddi cost a budd o'r holl opsiynau sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau hamdden yn y dyfodol;</li> <li>• cyfraniad gwasanaethau hamdden at rôl ehangach y Cyngor o ran iechyd y cyhoedd;</li> <li>• ymgysylltu'n well â'r cyhoedd er mwyn sicrhau y caiff barn ac anghenion defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr eu nodi'n glir;</li> <li>• effaith opsiynau gwahanol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus; ac</li> <li>• chynaliadwyedd y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol.</li> </ul> <p>A3 Sicrhau y caiff perfformiad gwasanaethau hamdden eu rheoli'n effeithiol drwy nodi cyfres o fesurau i alluogi swyddogion, aelodau a dinasyddion i farnu mewnbynnau, allbynnau ac effaith. Dylai hyn gwmpasu perfformiad ym mhob rhan o'r Cyngor a pherfformiad cyfleuster-benodol a chynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwariant cyfalaf a refeniw;</li> <li>• incwm;</li> <li>• 'cymhorthdal' y Cyngor;</li> <li>• ansawdd cyfleusterau a'r gwasanaeth a ddarperir;</li> <li>• boddhad cwsmeriaid;</li> <li>• llwyddiant mentrau 'masnachol newydd';</li> <li>• data defnydd – nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau/cyfleusterau, pryd y cawsant eu defnyddio, ac ati; ac</li> <li>• effaith hamdden o ran mynd i'r afael â blaenoriaethau ym maes iechyd y cyhoedd.</li> </ul>

## Tudalen 94

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Rhagfyr 2015	Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden	<p>A4 Gwella trefniadau llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol mewn perthynas â gwasanaethau hamdden drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i'r pwyllgor(au) craffu;</li> <li>• rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i aelodau etholedig er mwyn helpu i sicrhau y gwneir penderfyniadau cadarn;</li> <li>• meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill; ac</li> <li>• defnyddio canfyddiadau adolygiadau archwilio/arolygu mewnol ac allanol i nodi cyfleoedd i wella gwasanaethau.</li> </ul>

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)





WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mawrth 2016

March 2016

# Cyngor Sir Ddinbych Denbighshire County Council

Adroddiad Gwella Blynyddol  
Annual Improvement Report

Tudalen 97

Gwilym Bury  
Jeremy Evans



# Cyfranwyr Aseiad Perfformiad Performance Assessment Contributors

- *Y Cyngor – Adroddiad Perfformiad 2014-15.*
- *Swyddfa Archwilio Cymru – hunanasesiad y Cyngor a gwaith maes gan SAC.*
- *AGGCC – gofal cymdeithasol.*
- *Estyn.*
- Council – 2014-15 Performance Report.
- WAO – Council’s self-evaluation + fieldwork undertaken by WAO
- CSSIW - social care.
- Estyn.



## CASGLIAD CYFFREDINOL OVERALL CONCLUSION

***Mae'r Cyngor, gyda  
threfniadau rheoli a  
chraffu ariannol cadarn,  
yn parhau i wneud  
cynnydd o ran cyflawni  
gwelliannau yn y rhan  
fwyaf o'i feysydd â  
blaenoriae***

**The Council, with sound  
financial management and  
scrutiny arrangements,  
continues to make  
progress in delivering  
improvements in most of  
its priority areas**



# Canfyddiadau Aseiad Perfformiad Performance Assessment Findings

Tudalen 109

***Yn gyffredinol, gwnaeth y  
Cyngor gynnydd da o ran  
mynd i'r afael â  
thangyflawni a gofnodwyd  
yn y gorffennol, ac mae'n  
parhau i ddarparu  
gwasanaethau o ansawdd  
uchel ond erys pryderon  
ynghylch diogelu oedolion  
sy'n agored i niwed***

**Overall, the Council made good progress in addressing previously reported underperformance and it continues to deliver high-quality services but concerns remain in relation to safeguarding vulnerable adults**



# Canfyddiadau Aseiad Perfformiad

## Performance Assessment Findings

WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

- Gwerthusiad Estyn o berfformiad ysgolion
- Gwerthusiad Comisiynydd y Gymraeg o berfformiad Sir Ddinbych
- Yn gyffredinol, mae gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor yn perfformio'n dda ond mae diogelu oedolion sy'n agored i niwed ac ansawdd llawer o asiantaethau gofal cartref yn parhau i beri pryder
- Mae'r Cyngor yn parhau i lunio gwerthusiadau cytbwys a hyddysg o'i berfformiad ac yn cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009
- Estyn's evaluation of school performance
- Welsh Language Commissioner's evaluation of Denbighshire's performance
- Overall, the Council's social services perform well but safeguarding vulnerable adults and the quality of many domiciliary care agencies continues to be a concern
- The Council continues to produce well informed balanced evaluations of its performance and complies with the Local Government Measure 2009

• Tudalen 101



# Canfyddiadau Aseiad Perfformiad

## Performance Assessment Findings

WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

- Tudalen 102
- Mae dangosyddion cenedlaethol a safonau perfformio'r Cyngor ei hun yn parhau i roi darlun cywir o berfformiad  
Gwnaed cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r tangyflawni blaenorol a gofnodwyd wrth ddarparu tai fforddiadwy a datblygu strategaeth tai Cyngor newydd
  - Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu modelau amgen o ddarparu gwasanaethau ac ond newydd ddechrau datblygu fframwaith strategol priodol a trefniadau monitro a chraffu ar berfformiad
  - National indicators and the Council's own performance standards continue to present an accurate picture of performance
  - Good progress has been made in addressing the previously reported underperformance in the provision of affordable housing and developing a new Council housing strategy
  - The Council has adopted alternative models of service delivery but it has only just started to develop an appropriate strategic framework and performance monitoring and scrutiny arrangements



## Defnydd o adnoddau Use of Resources

*Mae gan y Cyngor  
drefniadau rheoli ariannol  
priodol ond mae  
angen iddo atgyfnerthu ei  
ddull o gynhyrchu incwm*

**The Council has  
appropriate financial  
management  
arrangements but needs  
to strengthen its approach  
to income generation**



# Defnydd o adnoddau Use of Resources

- Tudalen 104
- Mae cynlluniau a threfniadau'r Cyngor ar gyfer cyflawni arbedion yn y dyfodol yn addas at y diben ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol
  - Mae gan y Cyngor reolaethau effeithiol ar waith i sicrhau bod ei brosesau a'i reolaeth ariannol yn gadarn, ond mae angen iddo atgyfnerthu ei ddull o gynhyrchu incwm
  - Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar gyfer adolygu a herio perfformiad ariannol a chaiff y rhai sy'n gyfrifol am reoli perfformiad ariannol eu dwyn i gyfrif
  - The Council's future plans and arrangements to deliver savings are fit for purpose and are being effectively managed
  - The Council has effective controls in place to ensure its financial processes and management are robust, but needs to strengthen its approach to income generation
  - The Council has robust arrangements for reviewing and challenging financial performance and those responsible for managing financial performance are held to account





## Llywodraethu Governance

Mae trefniadau craffu'r  
Cyngor yn ategu proses  
gwneud penderfyniadau  
gadarn ac mae prosesau  
corfforaethol digonol  
i ganddo i ymateb i  
adroddiadau ac  
argymhellion gan  
reoleiddwyr allanol

The Council's scrutiny  
arrangements support  
sound decision making and  
it has adequate corporate  
processes for responding to  
reports and  
recommendations from  
external regulators



## Llywodraethu Governance

- Tudalen 106
- Mae trefniadau craffu'r Cyngor yn ategu proses gwneud penderfyniadau gadarn, ond mae presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd craffu wedi lleihau'n sylweddol
- Mae gan y Cyngor brosesau corfforaethol digonol ar gyfer ymateb i adroddiadau ac argymhellion gan reoleiddwyr allanol
- The Council's scrutiny arrangements support sound decision making, but there is a significant decline in member attendance at scrutiny meetings
- The Council has adequate corporate processes for responding to reports and recommendations from external regulators



## CASGLIAD CYFFREDINOL OVERALL CONCLUSION

***Mae'r Cyngor, gyda  
threfniadau rheoli a  
chraffu ariannol cadarn,  
yn parhau i wneud  
cynnydd o ran cyflawni  
gwelliannau yn y rhan  
fwyaf o'i feysydd â  
blaenoriae***

**The Council, with sound  
financial management and  
scrutiny arrangements,  
continues to make  
progress in delivering  
improvements in most of  
its priority areas**

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 27 Ebrill 2016

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Prif Swyddog Cyllid

**Awdur yr Adroddiad:** Steve Gadd, Prif Gyfrifydd

**Teitl:** Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2014-15 Cyngor Sir Ddinbych

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae adroddiad o'r enw 'Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2014 – 15 Cyngor Sir Ddinbych' wedi cael ei baratoi gan Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n amgaeedig. Mae'r adroddiad yn nodi crynodeb o'r canlyniadau allweddol o waith ardystio Swyddfa Archwilio Cymru ar grantiau a ffurflenni'r Cyngor yn 2014/15.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gofyn bod yr adroddiad mewnol hwn yn cael ei gyflwyno gerbron y pwyllgor hwn yn flynyddol. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol yn y cyfarfod i ateb cwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi crynodeb o'r canlyniadau allweddol o waith ardystio Swyddfa Archwilio Cymru ar grantiau a ffurflenni'r Cyngor 2014/15, ac at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ddinbych. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol a'r argymhellion sy'n deillio o'r gwaith hwn.

Mae'r adroddiad yn canfod bod gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith ar gyfer cynhyrchu a chyflwyno ceisiadau grant 2014/15.

Mae'r prif addasiad a nodwyd yn ymwneud â Chymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai. Nodwyd y diwygiad o £78,791 gan Lywodraeth Cymru, ar ôl i'r hawliad gael ei gadarnhau i ddechrau gan Swyddfa Archwilio Cymru. Fel y nodwyd yn yr adroddiad, roedd y ffigur hwn yn ymwneud â'r hawliad yn 2013/14 ac felly, roedd yn fater amseru rhwng blynyddoedd ariannol ac ni arweiniodd at golled o gymhorthdal i'r Cyngor.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae Cyllid Grant yn hanfodol wrth ariannu'r gwariant mewn meysydd megis addysg ac ysgolion, priffyrdd a'r amgylchedd ac adfywio. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu i roi sicrwydd bod trefniadau digonol yn eu lle o fewn y Cyngor i weinyddu'r broses grant.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r ffioedd ar gyfer gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag ardystio grantiau a ffurflenni ar gyfer 2014-15 yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Nid yw'n berthnasol i argymhellion yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae cynnwys bras yr adroddiad wedi cael ei drafod gyda'r Prif Swyddog Cyllid ac uwch aelodau o'r Adran Gyllid.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar grantiau a ffurflenni'r Cyngor at ddefnydd mewnol y Cyngor er mwyn helpu iddo ganolbwyntio ar unrhyw feysydd o risg neu wendid. Mae'n braf nodi bod yr adroddiad yn dod i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith. Mae argymhellion a sylwadau yn yr adroddiad wedi cael eu hadolygu a'u gweithredu arnynt lle bo hynny'n bosibl. Mae'r ffioedd yn ymrwymiad cyllideb presennol i'r awdurdod.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dylai'r broses archwilio amlygu unrhyw risgiau sylweddol ac ymateb y rheolwyr i fynd i'r afael â'r risg neu effaith, neu eu lleihau.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gofyn i'r Cyngor sefydlu trefniadau rheoli ariannol priodol. O dan Baragraff 20 o Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, bydd yr Archwilydd Cyffredinol, os yw'n ofynnol gan lywodraeth leol neu gorff arall sy'n derbyn grant, yn gwneud trefniadau ar gyfer ardystio hawliadau a ffurflenni.



Mae tudalen hwn yn fwriadol wag





# Ardystio Grantiau a Ffurflenni 2014-15

## Cyngor Sir Ddinbych

**Blwyddyn archwilio:** 2014-15

**Cyhoeddwyd:** Chwefror 2016

**Cyfeirnod y ddogfen:** 158A2016

# Statws yr adroddiad

---

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ddinbych fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn atebol i unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwyllir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti on perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru)

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Derwyn Owen, Anthony Veale, Gareth Evans ac aelodau eraill o dîm Swyddfa Archwilio Cymru.

# Cynnwys

---

Crynodeb	4
Penawdau	5
Crynodeb o ganlyniadau gwaith ardystio	7
Argymhellion	11

# Crynodeb

---

1. O dan baragraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol, os yw'n ofynnol gan lywodraeth leol neu gorff arall sy'n cael grant, wneud trefniadau ar gyfer ardystio hawliadau a ffurflenni (y cyfeirir atynt fel hawliadau grant, ar ôl hyn). Cynhaliwyd ein gwaith gyda'r nod o ardystio hawliadau unigol ac i ateb y cwestiwn:  
**'A oes gan Gyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) drefniadau digonol yn eu lle i sicrhau bod hawliadau grant yn cael eu paratoi sydd wedi'u cydlynu, yn gywir, yn amserol ac wedi'u dogfennu'n briodol?'**
2. Rydym wedi cwblhau'r archwiliad ac rydym yn dod i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniadau digonol yn eu lle ar gyfer paratoi a chyflwyno ei hawliadau grant 2014-15. Rydym wedi gwneud dau argymhelliad ac rydym yn parhau i weithio gyda'r Cyngor i wneud gwelliannau pellach yn barod ar gyfer archwiliad ardystio hawliadau grant 2015-16.
3. Ar gyfer 2014-15 ardystiwyd 14 o hawliadau grant gyda chyfanswm gwerth £81 miliwn; mae hyn yn cymharu ag 19 o hawliadau grant gwerth £90 miliwn ar gyfer 2013-14.
4. Ar y cyfan, canlyniad ein harchwiliadau ardystio grant oedd lleihad net mewn hawliad grant o £84,537 fel y nodir isod.
5. Gwnaeth canlyniadau ein gwaith hefyd dynnu sylw at y canlynol:
  - roedd tri o'r 14 o hawliadau grant (21 y cant) wedi'u hamodi, sy'n cymharu â thri hawliad (16 y cant) a oedd wedi'u hamodi yn 2013-14;
  - roedd tri o'r 14 o hawliadau grant (21 y cant) wedi'u diwygio, sy'n cymharu â chwe hawliad (31 y cant) yn 2013-14.
6. Dylai'r cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn ym mhwynt 5 uchod gael eu darllen yng nghyd-destun y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi diwygio'r meini prawf amodi ar gyfer 2014/15, ac nid oes angen i ddiwygiadau ariannol gwerth llai na chyfanswm o £10,000 fesul grant gael eu hamodi bellach.
7. Rydym yn cydnabod cymorth a chydweithredu'r Cyngor yn ystod yr archwiliad.

# Penawdau

## Cyflwyniad a chefnidir

**Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau gwaith ar ardystio hawliadau a ffurflenni'r Cyngor ar gyfer 2014-15.**

- Fel archwilywyr penodedig y Cyngor, gofynnir inni ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, i ardystio hawliadau grant a wnaed gan y Cyngor.
- Ar gyfer 2014-15, ardystiwyd 14 o grantiau gwerth cyfanswm o £81 miliwn, o gymharu ag 19 o hawliadau grant ar gyfer 2013-14 gwerth cyfanswm o £90 miliwn.
- Rydym wedi paratoi'r adroddiad hwn er mwyn inni allu rhoi adborth ar y cyd i'r swyddogion hynny sydd â chyfrifoldeb am reoli grantiau er mwyn inni allu cydweithio i nodi gwelliannau pellach y gellir eu gwneud i wella'r broses.

## Derbyn hawliadau'n amserol

**Mae ein dadansoddiad yn dangos bod 12 o'r 14 o hawliadau am grant a gafwyd yn ystod y flwyddyn wedi'u cael erbyn y terfyn amser archwilio (14%). Nid oedd cyflwyno dau hawliad yn hwyr wedi effeithio ar ein gwaith archwilio.**

## Canlyniadau ardystio

**O'r 14 o hawliadau a archwiliwyd, roedd tri wedi'u hamodi (21%), sy'n cymharu â thri hawliad (16%) wedi'u hamodi yn ystod 2013-14.**

- Mae gwybodaeth fanwl am y materion amodi penodol wedi'u nodi ar dudalennau 8 a 9, ac yn y llythyrau amodi grant unigol a anfonwyd at weinyddwr grantiau Cyngor Sir Ddinbych a'r adran dalu.

## Addasiadau archwilio

**Roedd addasiadau'n angenrheidiol i dri o grantiau'r Cyngor:**

- Roedd un addasiad sylweddol i'r hawliad Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai gwerth £78,791.
- Mae'r addasiad net o'r ddau grant arall a ddiwygiwyd yn lleihad net o £5,746.44 mewn hawliad grant i'r Cyngor.

## Trefniadau'r Cyngor

**Mae lle i wella'r trefniadau sydd yn eu lle ar gyfer paratoi a chyflwyno hawliadau grant.**

Rydym wedi darparu'r canlynol i'r Cyngor:

- templed rhestr wirio grantiau a fydd, os caiff ei gwblhau gyda phapurau gwaith priodol ar bwynt coladu'r ffurflenni grant, yn sicrhau cysondeb ac yn cryfhau ymhellach drefniadau'r Cyngor mewn perthynas â grantiau;
- dau argymhelliad a nodir ar dudalen 11 yr adroddiad hwn.

**Ffioedd****Ein ffi gyffredinol ar gyfer ardystio grantiau a ffurflenni ar gyfer 2014-15 yw £71,542 (2013-14) - £89,658).**

Ein ffi gyffredinol ar gyfer archwilio ac ardystio holl grantiau a ffurflenni'r Cyngor ar gyfer 2014-15 yw £71,542.

Yn ein Cynllun Archwilio a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Mawrth 2015, amcangyfrifwyd ar gyfer 2014-15, y byddem yn archwilio rhwng 15 ac 20 o hawliadau grant gyda ffi amcangyfrifedig o rhwng £75,000 a £80,000. Byddwn yn darparu amcangyfrif pellach i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer ein gwaith grantiau 2015-16 yng ngwanwyn 2016.

# Crynodeb o ganlyniadau gwaith ardystio

---

8. Ar y dudalen nesaf rhoddir crynodeb o'r canlyniadau allweddol o'n gwaith ardystio ar grantiau a ffurflenni'r Cyngor ar gyfer 2014-15, gan ddangos lle y gwnaed naill ai ddiwygiadau archwilio o ganlyniad i'n gwaith neu lle roedd yn rhaid inni amodi ein tystysgrif archwilio.
9. Mae amodi yn golygu bod materion wedi'u nodi yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â gofynion cynllun nad oedd modd ei datrys drwy addasiad. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n debygol y bydd y corff talu grant perthnasol yn ei gwneud yn ofynnol cael rhagor o wybodaeth gan y Cyngor i fodloni ei hun bod y symiau llawn o grant a hawliwyd yn briodol.

## Gwybodaeth allweddol ar gyfer 2014-15

### Yn gyffredinol, gwnaethom ardystio 14 o grantiau a ffurflenni:

Roedd **deg** yn ddiamod heb ddiwygiad.

Roedd **dau** yn ddiamod ond roedd angen rhywfaint o ddiwygio ar y ffigurau terfynol.

Roedd **dau** lle roedd angen amodi ein tystysgrif archwilio.

Roedd **un** wedi'i amodi ac roedd angen rhywfaint o ddiwygio ar y ffigurau terfynol.

Cyf – Para 8	Grantiau a ffurflenni	Gwerth yr hawliad (£000)	Hawliad yn ddyledus erbyn	Dyddiad y'i cafwyd gan SAC	Cafwyd ar amser	Tystysgrif wedi'i hamodi	Tystysgrif wedi'i diwygio	Addasiad sylweddol (>£10,000)	Mân addasiad (<£10,000)
1 BEN01	Budd-dal Tai a Threth Cyngor	£34,243	30/04/15	27/04/15	Do	Oedd	Nac oedd	Dd/B	Dd/B
2 EDU18	Ysgolion yr 21ain ganrif 2014-15	£3,848	30/09/15	29/09/15	Do	Nac oedd	Nac oedd	Dd/B	Dd/B
3 EDU18	Grant Gwella Adeiladau Ysgolion Trosiannol	£548	30/09/15	29/09/15	Do	Nac oedd	Nac oedd	Dd/B	Dd/B
4 EYC01	Refeniw Dechrau'n Deg	£1,921	30/09/15	30/09/15	Do	Oedd	Oedd	Dd/B	-£5,746
5 EYC02	Cyfalaf Dechrau'n Deg	£107	30/09/15	29/09/15	Do	Nac oedd	Nac oedd	Dd/B	Dd/B
6 EYC14	Refeniw Teuluoedd yn Gyntaf	£1,302	30/09/15	30/09/15	Do	Nac oedd	Nac oedd	Dd/B	Dd/B
7 HOU03	Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai	£3,119	30/09/15	06/10/15	Naddo	Nac oedd	Oedd	-78,791	Dd/B
8 LA01	Ffurflen Ardrethi Annomestig Cenedlaethol	£20,091	29/05/15	05/06/15	Naddo	Nac oedd	Nac oedd	Dd/B	Dd/B
9 LA12	Rheoli Gwastraff Cynaliadwy	£2,202	30/09/15	16/09/15	Do	Nac oedd	Nac oedd	Dd/B	Dd/B



Cyf – Para 8	Grantiau a ffurflenni	Gwerth yr hawliad (£000)	Hawliad yn ddyledus erbyn	Dyddiad y'i cafwyd gan SAC	Cafwyd ar amser	Tystysgrif wedi'i hamodi	Tystysgrif wedi'i diwygio	Addasiad (>£10,000)	Addasiad (>£10,000)
10 LD02	Draenio Tir ac Amddiffynfeydd Rhag Llifogydd	£3,200	30/09/15	08/09/15	Do	Nac oedd	Nac oedd	Dd/B	Dd/B
11 PEN05	Ffurflen Pensiynau Athrawon	£8,177	28/05/15	28/05/15	Do	Nac oedd	Nac oedd	Dd/B	Dd/B
12 TRA15	Cronfa Cludiant Lleol	£264	30/09/15	22/09/15	Do	Oedd	Nac oedd	Dd/B	Dd/B
13 SOC 07	Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol	£143	30/09/15	24/09/15	Do	Nac oedd	Nac oedd	Dd/B	Dd/B
14 TRA23	Teithio Consesiynau Am Ddim	£1,833	30/09/15	30/09/15	Do	Nac oedd	Nac oedd	Dd/B	Dd/B
	<b>Cyfanswm</b>							<b>-£78,791</b>	<b>-£5,746</b>

10. Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r materion allweddol sy'n sail i bob un o'r addasiadau neu'r amodi a nodwyd ar dudalennau 8 i 9.

Cyf	Arsylwadau cryno	Diwygiad
1	<p><b>BEN01 Cymhorthdal Budd-dal Tai a Treth Cyngor</b></p> <p>Cafodd yr hawliad Budd-dal Tai a Threth Cyngor ei amodi o ran y broses ar gyfer cysoni'r budd-dal a dalwyd er budd a roddwyd a gwall mewnbynnu yn ymwneud â'r ffigur rhent a effeithiodd ar un hawliad. Nid oedd diwygiad yn ofynnol.</p>	£0
2	<p><b>EYC01 Refeniw Dechrau'n Deg</b></p> <p>Roedd yr hawliad Refeniw Dechrau'n Deg wedi'i amodi a chafodd ei ddiwygio am y rhesymau a amlinellir isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cafwyd bod y sail ddosrannu a ddefnyddiwyd i ddyrannu grant i gyllido dosbarthiadau Dechrau Da Cyffredinol yn seiliedig ar gyfrifiadau hanesyddol ac roedd yn ddi-sail.</li> <li>• Nid oeddem yn gallu cadarnhau'r sail ddosrannu a ddefnyddiwyd i godi amser rheoli ar y grant.</li> <li>• Er y gwnaed cais amdano a'i adlewyrchu mewn dyraniadau dilynol, ni chafodd y Cyngor y gymeradwyaeth ofynnol gan Lywodraeth Cymru i symud dros 10% o gyllid grant o fewn categorïau cyllideb.</li> </ul>	-£5,746
3	<p><b>TRA15 Cronfa Cludiant Lleol</b></p> <p>Roedd y Gronfa Cludiant Lleol wedi'i hamodi am inni nodi bod y Cyngor, yn dilyn proses arfarnu tendr, wedi dyfarnu contract ar gyfer gwaith gwerth o £511,000 i'r tendr isaf. Nid oedd y broses wedyn ar gyfer dyfarnu'r contract yn cydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor am nad oedd wedi'i hawdurdodi'n briodol gan swyddog neu aelod â'r awdurdod priodol. At hynny, nid oedd y Cyngor yn gallu dod o hyd i gopi o'r contract.</p>	£0
4	<p><b>HOU03 Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai</b></p> <p>Cafodd yr hawliad cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai ei ddiwygio ar gais Llywodraeth Cymru i ddileu ffigur a oedd yn ymwneud â hawliad cymhorthdal 2013/14. Roedd hwn yn fater amseru rhwng blynyddoedd ariannol ac ni arweiniodd at golli cymhorthdal i'r Cyngor.</p>	-£78,791
	<b>Cyfanswm effaith y diwygiadau i'r Cyngor</b>	<b>-£84,537</b>

## 12. Nodir yr argymhellion sy'n codi o'n gwaith isod.

A1 Yn benodol mewn perthynas â grant Refeniw Dechrau'n Deg:

- Dylai unrhyw sail ddosrannu a gymhwysir i ddyrannu cyllid grant gael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau bod symiau a godir ar grant yn adlewyrchiad cywir o'r amser/gost yr eir iddynt a bod y sail ar gyfer dosrannu yn berthnasol.
- Rhaid cael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru yn unol ag amodau'r grant **cyn** gweithredu unrhyw drosglwyddiad cyllid grant sy'n uwch na 10% o'r categori cyllideb.

A2 Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod yr holl staff sy'n gyfrifol am agor ac arfarnu tendrau ac yna'n dyfarnu contractau, yn cydymffurfio'n llawn â Rheolau Gweithdrefnau Contractau'r Cyngor.

Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>27 Ebrill 2016</b>
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Y Cyngorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Prif Swyddog Cyllid</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Steve Gadd, Prif Gyfrifydd</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Proses y Gyllideb 2017/18</b>

---

## 1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad am y broses o ddarparu cyllideb referniw ar gyfer 2017/18.

## 2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol rôl i gadw trosolwg o broses y gyllideb. Safbwynt y Pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf oedd y dylid cael mwy o ymgysylltiad gan yr aelodau yn gynnar yn y broses. Cytunwyd y dylid gwneud y newidiadau canlynol i amserlen y gyllideb:

- Cyflwyno papur ar broses y gyllideb arfaethedig i Arweinwyr Grwpiau ar 4 Ebrill.
- Ychwanegu diweddariad pellach i raglen Briffio'r Cyngor ar gyfer 6 Mehefin 2016.

Mae proses y gyllideb arfaethedig ynghlwm fel Atodiad 1.

## 3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Ystyried proses y gyllideb a gwneud sylwadau fel y bo'n briodol.

## 4. **Manylion yr Adroddiad**

Fel y cytunwyd yn y Cyfarfod Llywodraethu Corfforaethol diwethaf cyflwynwyd proses y gyllideb arfaethedig yng nghyfarfod Arweinwyr Grwpiau a gynhaliwyd ar 4 Ebrill. Roedd yr adborth cychwynnol yn gadarnhaol fodd bynnag rhoddwyd cyfle i Arweinwyr Grwpiau drafod y cynigion ymhellach gyda'u cydweithwyr a darparu sylwadau adborth erbyn 15 Ebrill. Gellir darparu diweddariad ar lafar yn y cyfarfod ynglŷn ag unrhyw faterion sy'n codi o unrhyw adborth a dderbyniwyd.

Mae proses y gyllideb ddiwygiedig ynghlwm fel Atodiad 1 ac mae'r tybiaethau a'r egwyddorion allweddol wedi'u nodi isod.

**Tybiaethau Allweddol yn Llywio Datblygiad y Cynllun Ariannol Tymor Canolig**

- **Cyllid y Llywodraeth** - y rhagdybiaeth yw y bydd Grant Cynnal Refeniw yn parhau i leihau wrth i LIC barhau i ddiogelu'r GIG a meysydd eraill ar draul llywodraeth leol. Yr amcangyfrif presennol yw y bydd gostyngiad o 1.5% mewn cyllid (gostyngiad o 1.2% yn 16/17) yn seiliedig ar Ddatganiad yr Hydref a gwaith a wnaed gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- **Ariannu lleol** - Fel yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gyhoeddwyd yn flaenorol tybir y bydd cynnydd o 2.75% mewn Treth y Cyngor. Mae cysoni gyda chynghorau eraill yn debyg o fod yn fater yn fwy cyffredin yn y dyfodol.
- **Gwarchod Ysgolion** - Os yw addewid y gweinidogion yn parhau ar ei ffurf bresennol y tu hwnt yr etholiad a bod y cyngor yn cydymffurfio, lefel y cynnydd i gyllidebau ysgolion fydd +1.93% yn 17/18, sy'n fwy na dwbl y rhagdybiaeth gynllunio wreiddiol ar gyfer 16/17 (a oedd yn seiliedig ar +0.9%). Yn ogystal, mae demograffeg disgyblion yn codi yn 17/18 (ar ôl tair blynedd o ostyngiad) gyda chost bosibl o £656,000. Ers cyflwyno'r amddiffyniad ysgolion, mae ysgolion wedi ariannu pob cynnydd mewn cyflogau a chostau cysylltiedig.
- **Tâl a Phensiynau** – Y tybiaethau ar gyfer dyfarniad cyflog yw cyfartaledd o +1%. Mae costau ar gyfer cynyddu pensiwn yn cael eu cynnwys, ond mae'r trafodaethau gyda'r actiwariaid yn parhau i brofi'r posibilrwydd o rewi lefelau am y tair blynedd nesaf.
- **Pwysau Corfforaethol Eraill** - Yn cynnwys Ardoll Tân, costau aelodau, premiymau yswiriant, CTRS, costau ynni, ac ati
- **Pwysau Penodol o fewn Gofal Cymdeithasol** - Mae'n debygol y bydd angen cynnwys cydnabyddiaeth o bwysau cynyddol yn y maes hwn, er y tybir y bydd y gwasanaeth yn ariannu rhywfaint o hyn drwy ail-fuddsoddi arbedion effeithlonrwydd.
- **Defnyddio Balansau** - Gan nad oes wedi bod angen balansau i'r graddau a ganiateir ar ei gyfer yng nghyllideb 15/16, gellid darparu cyllid ychwanegol yn 17/18 heb leihau balansau y tu hwnt i'r lefelau a ragwelwyd pan osodwyd cyllideb 15/16.

### **Egwyddorion Proses y Gyllideb 2017/18**

- **Cyllideb 2017/18** - Bydd y broses yn canolbwyntio ar gyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer 2017/18 ac ni fydd gofyn i'r Aelodau gymeradwyo arbedion ar gyfer y blynyddoedd i ddod, er y bydd effaith barhaus i rai arbedion.
- **Casglu data** – Mae Cyllid wedi datblygu cyfres o ffurflenni y bydd disgwyl i wasanaethau eu llenwi i lywio proses y gyllideb a hwyluso penderfyniadau. Yn benodol, bydd y ffurflenni yn ein caniatáu i nodi adnabod arbedion effeithlonrwydd, opsiynau i leihau lefelau gwasanaeth a chyllidebau, pwysau gwasanaeth penodol, y defnydd o gronfeydd wrth gefn y gwasanaeth a'r polisïau ffioedd a thaliadau yn y gwasanaeth.
- **Targed Effeithlonrwydd** – mae'n debyg y bydd gwasanaeth yn derbyn targed arbedion effeithlonrwydd cymedrol (e.e. 1%) y bydd disgwyl i bob

gwasanaeth eu cyflawni drwy arbedion effeithlonrwydd gwirioneddol (h.y. nad ydynt yn ymwneud â gostyngiad yn lefel gwasanaeth neu gynnydd mewn taliadau).

